# City & Guilds Lefel 4 Ymarfer Proffesiynol mewn Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant

Gorffennaf 2021 Fersiwn 1.1

## Llawlyfr y Cymhwyster

| Fersiwn a Dyddiad | Newid manylion | Adran |
|---|---|---|
| 1.1 Gorffennaf 2021 | Ymrestru ac ardystio adran wedi'i diweddaru | Gofynion canolfannau |

# Cipolwg ar y cymhwyster

| | |
|---|---|
| **Maes pwnc** | Iechyd a gofal plant |
| **Rhif City & Guilds** | 8041 |
| **Grŵp oedran cymeradwy** | 18+ |
| **Gofynion cofrestru** | Dim |
| **Asesu** | Cyfuniad o asesu mewnol ac allanol |
| **Cymeradwyaethau** | Mae angen cymeradwyo'r ganolfan a'r cymhwyster |
| **Deunyddiau cefnogi** | Llawlyfr y Cymhwyster<br>Pecyn asesu |
| **Ymrestru ac ardystio** | Gweler y manylion ar wefan y Consortiwm |

| Teitl a lefel | Rhif cyfeirnod | Rhif achredu |
|---|---|---|
| Lefel 4 Ymarfer Proffesiynol mewn Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant | 8041-17 | C00/3933/4 |

# Cynnwys

Lefel 4 Ymarfer Proffesiynol mewn Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant 1
**Cipolwg ar y cymhwyster 2**
**Cynnwys 4**
**1 Cyflwyniad 6**
Nodau ac amcanion y pwnc 7
Strwythur 8
Oriau dysgu dan arweiniad (ODA) a Chyfanswm amser cymhwyso (CAC) 10
**2 Gofynion canolfannau 11**
Cymeradwyo'r cymhwyster 11
Ymrestru ac ardystio 11
Staff canolfannau 12
Gofynion cofrestru ymgeiswyr 13
Cyfyngiadau oedran 13
**3 Cyflwyno'r cymhwyster 14**
Asesu cychwynnol a sefydlu 14
Deunyddiau cefnogi 14
Swyddogion cyswllt/penodedigion allanol 14
Cymedroli trefniadau asesu mewnol 16
Apêl fewnol 16
Ffactorau sy'n effeithio ar ymgeiswyr unigol 16
Camymddwyn 16
Trefniadau mynediad ac ystyriaeth arbennig 17
**4. Asesu 19**
Crynodeb o'r dulliau asesu 19
Efelychu 19
Cyfyngiadau amser 19
Cydnabod dysgu blaenorol (CDB) 19
Dyfarnu'r cymhwyster 19
Cyfleoedd ailsefyll 20
**5 Unedau 21**
Yr unedau sydd ar gael 21
Canllawiau ar gyflwyno cynnwys yr unedau 22
**Uned 405 Arwain ymarfer plentyn-ganolog 24**
Canllawiau cyflwyno 26
Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol cysylltiedig 29
Deddfwriaeth gysylltiedig 30

| | | |
|---|---|---|
| | Adnoddau | 30 |
| **Uned 415** | **Sgiliau astudio** | **32** |
| | Canllawiau cyflwyno | 34 |
| | Adnoddau | 35 |
| **Uned 416** | **Gweithio gyda theuluoedd a gofalwyr i ddatblygu sgiliau rhianta** | **36** |
| | Canllawiau cyflwyno | 42 |
| | Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol cysylltiedig | 45 |
| | Deddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig | 46 |
| **Uned 417** | **Gweithio gyda Phlant ag Anghenion Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu** | **48** |
| | Gofynion tystiolaeth | 54 |
| | Canllawiau cyflwyno | 54 |
| **Uned 419** | **Adnabod a Chefnogi Plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)** | **58** |
| | Canllawiau cyflwyno | 62 |
| | Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol cysylltiedig | 63 |
| | Deddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig | 63 |
| **Atodiad 1** | **Cysylltiadau â chymwysterau eraill** | **65** |
| | Cysylltiadau â chymwysterau eraill | 65 |

# 1 Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn dweud wrthych beth mae angen i chi ei wneud er mwyn cyflwyno'r cymwysterau:

| Maes | Disgrifiad |
|---|---|
| Ar gyfer pwy mae'r cymhwyster? | Nod y cymhwyster hwn yw datblygu gwybodaeth, dealltwriaeth, ymddygiadau a sgiliau sy'n ategu Ymarfer Proffesiynol yn y sector gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant. Mae'r cymhwyster hwn yn bennaf ar gyfer pobl sy'n gweithio mewn lleoliadau gofal plant rheoleiddiedig gyda theuluoedd a phlant o dan 8 oed a gwasanaethau plant y GIG ar gyfer y rhai sy'n gweithio gyda theuluoedd a phlant 0-19 oed. Cafodd y cymhwyster hwn ei ddatblygu mewn cydweithrediad agos â rhanddeiliaid allweddol yn y sector, gan gynnwys Gofal Cymdeithasol Cymru ac Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC).<br><br>Mae'r cymhwyster yn seiliedig ar ymarfer ac yn asesu gwybodaeth ac ymarfer dysgwyr. Cafodd ei lunio ar gyfer dysgwyr ym maes dysgu seiliedig ar waith, addysg bellach ac addysg uwch.<br><br>Mae'r cymhwyster hwn yn cynnig y cam datblygu nesaf i ddysgwyr sydd wedi cwblhau cymhwyster Lefel 3 mewn Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant (Ymarfer). |
| Beth mae'r cymhwyster yn ei gynnwys? | Bydd y cymhwyster hwn yn galluogi dysgwyr i feithrin y wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer ymarfer proffesiynol mewn lleoliadau gofal plant neu iechyd. |
| Pa gyfleoedd sydd i ddatblygu? | Mae'r cymhwyster yn galluogi dysgwyr i symud ymlaen yn eu gwaith neu i astudio ymhellach ar lefel uwch.<br><br>I gael rhagor o wybodaeth am y gofynion ar gyfer gweithio yn y sector Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant, gan gynnwys rolau swyddi penodol, gweler y 'Fframwaith cymwysterau ar gyfer gofal cymdeithasol a gofal plant rheoleiddiedig yng Nghymru' sydd ar gael ar wefan Gofal Cymdeithasol Cymru. **https://gofalcymdeithasol.cymru/adnoddau/fframwaith-cymwysterau-ar-gyfer-y-sector-gofal-cymdeithasol-yng-nghymru** |
| Gyda phwy y gwnaethom ddatblygu'r cymhwyster? | Gofal Cymdeithasol Cymru ac Addysg a Gwella Iechyd Cymru a ddatblygodd gynnwys unedau'r cymhwyster hwn ac sy'n berchen arno. |

| | |
|---|---|
| | Datblygwyd y cynnwys ar y cyd â'r consortiwm, yn ogystal â rhanddeiliaid, tiwtoriaid, athrawon ac aseswyr yn y gweithle o bob rhan o'r sector gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant. |

## Nodau ac amcanion y pwnc

Bydd cymhwyster Lefel 4 Ymarfer Proffesiynol mewn Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant yn galluogi dysgwyr i ddatblygu a dangos eu gwybodaeth, dealltwriaeth, ymddygiadau, sgiliau ac ymarfer yng nghyd-destun y llwybr a ddewiswyd ganddynt. Yn arbennig, bydd dysgwyr yn gallu dangos eu bod yn:

- datblygu ac yn cymhwyso gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau yn y llwybr a ddewiswyd ganddynt;
- datblygu ac yn cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o ddamcaniaethau, modelau a dulliau sy'n gymwys i'r llwybr a ddewiswyd;
- datblygu ac yn cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o sut i gynnal a gwella canlyniadau plant yn y llwybr a ddewiswyd;
- datblygu fel dysgwyr effeithiol ac annibynnol, ac fel meddylwyr beirniadol a myfyriol â meddyliau holgar yng nghyd-destun y llwybr a ddewiswyd;
- mynd ati mewn ffordd holgar a beirniadol i wahaniaethu rhwng ffeithiau a safbwyntiau; creu dadleuon a llunio barn ar sail gwybodaeth mewn maes arbenigol o ofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant;
- datblygu hunanymwybyddiaeth er mwyn gwella ymarfer yn y llwybr a ddewiswyd;
- defnyddio sgiliau llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol fel sy'n briodol yn eu rôl.

## Strwythur

Er mwyn ennill cymhwyster **Lefel 4 Ymarfer Proffesiynol mewn Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant**, rhaid i ddysgwyr ennill o leiaf 60 credyd i gyd.

Er mwyn ennill y cymhwyster, rhaid i ddysgwyr ddilyn un o'r tri llwybr canlynol:

- Gweithio gyda theuluoedd a gofalwyr i ddatblygu sgiliau rhianta
- Gweithio gyda Phlant ag Anghenion Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu (SLCN)
- Adnabod a chefnogi plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)

Lleiafswm yr oriau dysgu dan arweiniad sy'n ofynnol ar gyfer y cymhwyster hwn yw 290.

Er mwyn ennill cymhwyster **Lefel 4 Ymarfer Proffesiynol mewn Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant (Gweithio gyda theuluoedd a gofalwyr i ddatblygu sgiliau rhianta)** rhaid i ddysgwyr ennill

- O leiaf **64** credyd o'r grŵp Gorfodol.

| Grŵp gorfodol | | | |
|---|---|---|---|
| Rhif yr Uned | Teitl yr Uned | ODA | Credyd |
| 405 | Arwain ymarfer plentyn-ganolog | 115 | 22 |
| 415 | Sgiliau astudio | 30 | 8 |
| 416 | Gweithio gyda theuluoedd a gofalwyr i ddatblygu sgiliau rhianta | 150 | 34 |

**Er mwyn ennill y cymhwyster Lefel 4 Ymarfer Proffesiynol mewn Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant (Gweithio gyda Phlant ag Anghenion Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu (SLCN))** rhaid i ddysgwyr ennill

- O leiaf **64** credyd o'r grŵp Gorfodol.

| Grŵp gorfodol | | | |
|---|---|---|---|
| Rhif yr Uned | Teitl yr Uned | ODA | Credyd |
| 405 | Arwain ymarfer plentyn-ganolog | 115 | 22 |
| 415 | Sgiliau astudio | 30 | 8 |
| 417 | Gweithio gyda Phlant ag Anghenion Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu (SLCN) | 170 | 34 |

Er mwyn ennill cymhwyster**Lefel 4 Ymarfer Proffesiynol mewn Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant (Adnabod a Chefnogi Plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)**) rhaid i ddysgwyr ennill

- O leiaf **60** credyd o'r grŵp Gorfodol.

| Grŵp gorfodol | | | |
|---|---|---|---|
| Rhif yr Uned | Teitl yr Uned | ODA | Credyd |
| 405 | Arwain ymarfer plentyn-ganolog | 115 | 22 |
| 415 | Sgiliau astudio | 30 | 8 |
| 419 | Adnabod a Chefnogi Plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) | 145 | 30 |

## Oriau dysgu dan arweiniad (ODA) a Chyfanswm amser cymhwyso (CAC)

Mae Oriau Dysgu Dan Arweiniad (ODA) yn rhoi syniad i ganolfannau o faint o amser dysgu ac asesu *dan oruchwyliaeth* sydd ei angen i gyflwyno uned a gellir eu defnyddio at ddibenion cynllunio.

Cyfanswm Amser Cymhwyso (CAC) yw cyfanswm yr amser, mewn oriau, y disgwylir i ddysgwr ei dreulio er mwyn ennill cymhwyster. Mae'n cynnwys oriau dysgu dan arweiniad (a restrir ar wahân) ac oriau a dreulir yn paratoi, yn astudio ac yn cyflawni rhai gweithgareddau asesu ffurfiannol.

Mae fformiwla sy'n cyfateb i werth y CAC wedi'i rannu â 10 yn cael ei defnyddio i gyfrifo'r credyd.

Nodir yr isafswm CAC ar gyfer y cymhwyster hwn isod.

| Cymhwyster | CAC |
|---|---|
| Lefel 4 Ymarfer Proffesiynol mewn Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant | 600 |

# 2 Gofynion canolfannau

## Cymeradwyo'r cymhwyster

Bydd angen cymeradwyo canolfannau a chymhwyster ar gyfer y cymhwyster hwn. Bydd hyn yn cynnwys asesiad desg.

Er mwyn cymeradwyo canolfan, rhaid i sefydliad allu bodloni'r meini prawf cymeradwyo canolfannau. Mae'r dogfennau canlynol yn rhoi manylion sut i gael cymeradwyaeth am y cymhwyster hwn:

- Llawlyfr Gweinyddu (*Cyflwyniad i weithio gyda City & Guilds a CBAC*)
- Ein Gofynion Sicrhau Ansawdd
- Model Sicrhau Ansawdd

Cynghorir darpar ganolfannau i geisio cymeradwyaeth canolfan a chymhwyster, fel sy'n briodol, cyn dechrau cyflwyno'r cymhwyster.

Mae'r Consortiwm yn anelu at gyhoeddi'r penderfyniad ynghylch cymeradwyo'r ganolfan a'r cymhwyster o fewn 30 diwrnod gwaith ar ôl i'r cais gael ei gyflwyno, gan arwain at bedwar canlyniad posibl:

- Cymeradwyo'r ganolfan a'r cymhwyster
- Cymeradwyo'r ganolfan a'r cymhwyster yn amodol ar gynllun gweithredu
- Ymatal rhag cymeradwyo'r ganolfan a'r cymhwyster yn amodol ar gynllun gweithredu
- Gwrthod cymeradwyo'r ganolfan a'r cymhwyster.

Tybir bod y ganolfan a'r cymhwyster wedi cael eu cymeradwyo pan fydd City & Guilds yn anfon cadarnhad ysgrifenedig o'r statws i'r ganolfan, ac nid cyn hynny.

Bydd yn ofynnol i ganolfannau wneud cais am gymeradwyaeth ar gyfer y cymhwyster hwn a bodloni'r gofynion penodol i ganolfannau a amlinellir yn y ddogfen hon mewn perthynas â staff cyflwyno a chymhwysedd aseswyr. Bydd y gofynion hyn yn cael eu harchwilio a'u monitro fel rhan o'r broses cymeradwyo cymwysterau a'r broses o fonitro'r cymwysterau hyn yn barhaus.

## Ymrestru ac ardystio

Mae dysgwyr ar gyfer y cymhwyster hwn yn cael eu cofrestru ar Pro Platform i gefnogi'r elfen asesu allanol. Mae Pro Platform yn galluogi canolfannau i gofrestru ar sail 'mewn ac allan' hy gallwch gofrestru ar unrhyw amser ac mewn unrhyw niferoedd yn ystod y flwyddyn.

**Ni ddylid** cofrestru dysgwyr am y cymhwyster hwn ar Walled Garden.

Mae mynediad i Pro Platform yn cael ei ddarparu i ganolfannau ar ôl derbyn cymeradwyaeth am y cymhwyster hwn. Mae canllawiau ar gael o dan y tab 'Welsh Qualifications' yn yr adran 'Support Materials' i ddarparu cymorth i ganolfannau cwblhau cofrestru, fesul dysgwyr unigol neu fesul grŵp.

Bydd dysgwyr yn cael eu tystysgrifo drwy Walled Garden.

## Staff canolfannau

### Gofynion aseswyr

Yr aseswr mewnol fydd yn gyfrifol am lunio'r farn asesu derfynol ar gyfer tasgau'r cymhwyster a asesir yn fewnol.

Rhaid i Aseswyr y cymhwyster hwn:

- fod yn gymwys yn alwedigaethol o fewn llwybr penodol y cymhwyster y maent yn ei asesu – mae hyn yn golygu bod yn rhaid i bob aseswr allu cyflawni'r gofynion llawn yn unedau cymhwysedd y llwybr y maent yn eu hasesu. Ystyr cymhwysedd galwedigaethol yw eu bod hefyd yn alwedigaethol wybodus
- cynnal eu cymhwysedd galwedigaethol drwy ddysgu a datblygiad proffesiynol parhaus y gellir eu dangos yn glir
- meddu ar D32/D33 neu A1 NEU fod yn gweithio tuag at ennill cymwysterau sydd wedi disodli A1 e.e. City & Guilds 6317 megis:
  - Dyfarniad Lefel 3 6317-31 mewn Asesu Cymhwysedd yn yr Amgylchedd Gwaith neu
  - Dystysgrif Lefel 3 6317-33 mewn Asesu Cyflawniad Galwedigaethol neu
  - gymhwyster cyfatebol/amgen addas arall ym maes asesu perfformiad yn y gwaith.

  Rhaid cytuno ar hyn ymlaen llaw gyda swyddog sicrhau ansawdd allanol y ganolfan.

Lle y bo gan aseswyr hen gymwysterau aseswr, rhaid iddyn nhw ddangos eu bod yn asesu'n unol â safonau asesu cyfredol neu gymhwyster cyfatebol/amgen addas arall ar gyfer asesu perfformiad yn y gwaith. Rhaid cytuno ar hyn ymlaen llaw gyda swyddog sicrhau ansawdd allanol y ganolfan.

Mae City & Guilds hefyd yn derbyn cymwysterau eraill i aseswyr a achredir yn genedlaethol. Mae rhestr lawn o'r rhain ar gael ar dudalen we'r cymhwyster.

Lle y bo aseswr yn gweithio tuag at ennill cymwysterau aseswr, rhaid bod trefniant cydlofnodi ar waith gan aseswr cymwysedig o'r un maes galwedigaethol neu faes galwedigaethol cysylltiedig.

### Swyddogion sicrhau ansawdd mewnol

Rhaid i'r rhai sy'n cyflawni rôl sicrhau ansawdd mewnol fod yn alwedigaethol wybodus a meddu ar y sgiliau sydd eu hangen i wneud penderfyniadau sicrhau ansawdd.

Mae'r gofynion cymhwyso ar gyfer swyddog sicrhau ansawdd mewnol ar gyfer cymwysterau seiliedig ar gymhwysedd fel a ganlyn. Rhaid bod y swyddog sicrhau ansawdd mewnol:

- yn meddu ar y cymwysterau Sicrhau Ansawdd cyfredol, neu fod yn gweithio tuag at eu hennill, e.e.
  - Dyfarniad Lefel 4 mewn Sicrhau Ansawdd Prosesau ac Ymarfer Asesu yn Fewnol neu
  - Dystysgrif Lefel 4 mewn Arwain Gwaith Sicrhau Ansawdd Prosesau ac Ymarfer Asesu yn Fewnol neu
  - Feddu ar uned D34 neu Ddyfarniad Gwirwyr V1.

Lle y bo swyddog sicrhau ansawdd mewnol yn gweithio tuag at ennill cymhwyster swyddog sicrhau ansawdd mewnol, rhaid bod trefniant cydlofnodi ar waith gan swyddog sicrhau ansawdd mewnol cymwysedig o'r un maes galwedigaethol neu faes galwedigaethol cysylltiedig.

### Cyd-destun Cymreig

Awgrymir y byddai'n fuddiol i unigolion nad ydynt wedi cynnal gweithgareddau asesu yng Nghymru o'r blaen feithrin ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a dealltwriaeth o ddiwylliant, polisi a chyd-destun Cymru, er mwyn eu cefnogi yn eu rolau.

### Datblygiad proffesiynol parhaus

Disgwylir i ganolfannau gynorthwyo eu staff i sicrhau bod eu gwybodaeth a'u cymhwysedd yn y maes galwedigaethol ac o ran arfer gorau wrth gyflwyno, mentora, hyfforddi, asesu a sicrhau ansawdd yn gyfredol a'u bod yn ystyried unrhyw ddatblygiadau cenedlaethol neu ddeddfwriaethol.

## Gofynion cofrestru ymgeiswyr

Nid yw City & Guilds yn pennu unrhyw ofynion cofrestru ychwanegol ar gyfer y cymhwyster hwn. Fodd bynnag, rhaid i ganolfannau sicrhau bod gan ymgeiswyr y potensial i ennill y cymwysterau'n llwyddiannus, a'u bod yn cael y cyfle i wneud hynny.

Gellir cofrestru ar gyfer y cymhwyster drwy'r Ardd Furiog – gweler gwefan y Consortiwm am ragor o fanylion.

## Cyfyngiadau oedran

Ni all y Consortiwm dderbyn unrhyw ymrestriadau ar gyfer ymgeiswyr o dan 18 oed gan nad yw'r cymhwyster hwn wedi'i gymeradwyo ar gyfer rhai o dan 18 oed.

# 3 Cyflwyno'r cymhwyster

## Asesu cychwynnol a sefydlu

Dylid cynnal asesiad cychwynnol o bob dysgwr cyn dechrau ei raglen er mwyn nodi:

- a oes gan y dysgwr unrhyw anghenion penodol o ran hyfforddiant,
- unrhyw gefnogaeth ac arweiniad y gall fod eu hangen arno wrth weithio tuag at ei gymhwyster,
- unrhyw unedau y mae eisoes wedi'u cwblhau, neu gredyd y mae wedi'i gronni sy'n berthnasol i'r cymhwyster,
- y math a'r lefel briodol o gymhwyster.

Argymhellir bod canolfannau yn cynnig rhaglen sefydlu fel bod y dysgwr yn deall gofynion y cymhwyster, ei gyfrifoldebau fel dysgwr, a chyfrifoldebau'r ganolfan yn llawn. Gall y wybodaeth hon gael ei chofnodi ar gontract dysgu.

## Deunyddiau cefnogi

Mae'r adnoddau canlynol ar gael ar gyfer y cymhwyster hwn:

| Disgrifiad | Sut i gael gafael arno |
|---|---|
| Pecyn asesu | Gwefan y Consortiwm |

## Swyddogion cyswllt/penodedigion allanol

Swyddogion Cyswllt/Penodedigion yw'r termau a ddefnyddir gan y Consortiwm i gyfeirio at unigolion a benodir gan City & Guilds neu CBAC i gyflawni rolau penodol ar eu rhan, er enghraifft, dilyswyr allanol neu aseswyr allanol.

Pennwyd meini prawf gan y Consortiwm er mwyn sicrhau bod pob swyddog cyswllt/penodai yn meddu ar y wybodaeth, y profiad a'r sgiliau galwedigaethol cywir i gyflawni'r rôl benodol.

Bydd y Consortiwm yn sicrhau bod pob swyddog cyswllt/penodai sy'n cyflawni rôl sicrhau ansawdd ym meysydd cymeradwyo canolfannau, cymeradwyo cymwysterau a gwneud penderfyniadau asesu wedi'i hyfforddi, yn meddu ar y cymwysterau priodol ac yn gymwys yn alwedigaethol. Rhaid mynychu hyfforddiant a digwyddiadau safoni.

Mae staff y Consortiwm yn rheoli perfformiad pob swyddog cyswllt/penodai. Os nodir pryderon am unigolyn, bydd pob partner Consortiwm yn cymryd camau cywirol a all gynnwys camau gwella a monitro agos neu, mewn rhai achosion, gall problemau o ran ansawdd perfformiad arwain at derfynu contract Corff Dyfarnu gyda'r swyddog cyswllt/penodai.

### Aseswyr allanol

Ar gyfer y cymhwyster hwn, bydd City & Guilds yn recriwtio cronfa o aseswyr allanol a fydd yn cynnal yr asesiad allanol ac yn gwneud y penderfyniad asesu ar gyfer pob ymgeisydd sy'n cwblhau'r elfen o'r cymhwyster hwn a asesir yn allanol. Rhaid i'r gronfa hon o aseswyr:

- fod yn alwedigaethol gymwys – mae hyn yn golygu bod yn rhaid i bob aseswr allu cyflawni'r gofynion llawn yn yr unedau cymhwysedd y maent yn eu hasesu. Ystyr cymhwysedd galwedigaethol yw eu bod hefyd yn alwedigaethol wybodus.
- cynnal eu cymhwysedd galwedigaethol drwy ddysgu a datblygiad proffesiynol parhaus y gellir eu dangos yn glir.
- meddu ar D32/D33 neu A1 NEU fod yn gweithio tuag at ennill cymwysterau sydd wedi disodli A1 e.e. City & Guilds 6317 megis:
    - Dyfarniad Lefel 3 6317-31 mewn Asesu Cymhwysedd yn yr Amgylchedd Gwaith neu
    - Dystysgrif Lefel 3 6317-33 mewn Asesu Cyflawniad Galwedigaethol neu
    - gymhwyster cyfatebol/amgen addas arall ym maes asesu perfformiad yn y gwaith.

  Rhaid cytuno ar hyn ymlaen llaw gyda swyddog sicrhau ansawdd allanol y ganolfan.

  er mwyn sicrhau eu bod yn meddu ar y sgiliau cywir a'r cymhwysedd galwedigaethol i allu llunio barn asesu ddilys, sy'n briodol i lefel y cymhwyster hwn.

Lle y bo aseswr yn gweithio tuag at ennill cymwysterau aseswr, rhaid bod trefniant cydlofnodi ar waith gan aseswr cymwysedig o'r un maes galwedigaethol neu faes galwedigaethol cysylltiedig.

Bydd pob aseswr allanol yn mynd drwy hyfforddiant cychwynnol ar y dull asesu. Bydd aseswyr allanol yn destun safoni a samplu arweiniol. Caiff digwyddiadau hyfforddi a safoni blynyddol eu cynnal gyda'r holl aseswyr.

Bydd aseswyr arweiniol yn cefnogi'r broses o recriwtio a hyfforddi aseswyr newydd, gan ddefnyddio enghreifftiau o arfer gorau a rhoi cefnogaeth ar gyfer gweithgareddau asesu.

Bydd y Consortiwm yn sicrhau bod digon o swyddogion cyswllt/penodedigion dwyieithog yn cael eu recriwtio er mwyn diwallu anghenion canolfannau a dysgwyr cyfrwng Cymraeg. Bydd y lefel o weithgarwch sicrhau ansawdd yn gyson rhwng y Gymraeg a'r Saesneg. Darperir ar gyfer monitro a safoni yn y ddwy iaith.

Bydd yr holl swyddogion cyswllt/penodedigion yr ystyrir eu bod yn cymryd rhan mewn gweithgarwch a reoleiddir yn destun gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a byddant yn cael sesiwn friffio ar ddiogelu cyn ymweld â chanolfan.

## Swyddogion sicrhau ansawdd allanol

Rhaid i'r rhai sy'n cyflawni rôl sicrhau ansawdd allanol fod yn alwedigaethol wybodus a meddu ar y sgiliau sydd eu hangen i wneud penderfyniadau sicrhau ansawdd.

Bod y Consortiwm yn ei gwneud yn ofynnol i Swyddogion Cyswllt/penodedigion feddu ar gymhwyster sicrhau ansawdd allanol, sef naill ai:

D35 – Gwirio'r Broses Asesu'n Allanol (D35) neu V2 – Tystysgrif Lefel 4 mewn Sicrhau Ansawdd y Broses Asesu yn Allanol (V2)

Lefel 4 Sicrhau Ansawdd Prosesau ac Ymarfer Asesu yn Allanol.

Bydd Swyddogion Cyswllt/penodedigion yn gweithio tuag at ennill y cymhwyster sicrhau ansawdd allanol cyfredol (TAQA) neu byddant eisoes wedi'i ennill, neu byddant yn meddu ar hen gymhwyster fel V2/D35

Lle y bo swyddog sicrhau ansawdd allanol yn gweithio tuag at fodloni'r gofynion ar gyfer swyddogion sicrhau ansawdd allanol, rhaid bod trefniant cydlofnodi ar waith gan swyddog sicrhau ansawdd allanol arall o'r un maes galwedigaethol neu faes galwedigaethol cysylltiedig.

## Cymedroli trefniadau asesu mewnol

Mae prosesau sicrhau ansawdd allanol ar waith i gadarnhau dilysrwydd a dibynadwyedd y farn asesu fewnol a lunnir gan staff canolfannau a'r prosesau cysylltiedig y maent yn eu dilyn, fel y bo'n briodol i'r cymhwyster hwn.

Bydd y farn asesu fewnol a'r prosesau cysylltiedig yn destun gwaith monitro a samplu yn seiliedig ar risg gan swyddogion sicrhau ansawdd allanol er mwyn sicrhau bod barn asesu canolfannau yn gyson ac yn ddilys. Cyflawnir gweithgareddau sicrhau ansawdd gan swyddogion cyswllt asesu hyfforddedig sy'n meddu ar y cymwysterau priodol. Ym mhob achos o samplu'r farn asesu fewnol a'r prosesau cysylltiedig at ddibenion sicrhau ansawdd, rhoddir adborth ysgrifenedig ffurfiol gan City & Guilds.

Bydd y Consortiwm yn ymchwilio i unrhyw achos sylweddol o ddiffyg cydymffurfio neu unrhyw feysydd sy'n peri pryder a nodir wrth fonitro'n allanol. O ganlyniad i weithgarwch o'r fath gellir cymryd camau gwella a/neu roi sancsiynau. Mewn rhai achosion gall ymchwiliadau arwain at ddadymrestru'r ganolfan neu'r canolfannau dan sylw.

I gael rhagor o wybodaeth am y broses monitro allanol, gweler y Llawlyfr Gweinyddu (Cyflwyniad i weithio gyda City & Guilds a CBAC) sydd ar gael ar wefan y Consortiwm yn www.dysguiechydagofal.cymru

## Apêl fewnol

Rhaid bod gan ganolfannau broses fewnol ar waith er mwyn i ddysgwyr apelio yn erbyn y ffordd y cafodd asesiadau eu marcio'n fewnol. Rhaid i'r broses fewnol gynnwys rhoi gwybod i ddysgwyr am y canlyniadau mae'r ganolfan wedi'u rhoi ar gyfer elfennau a asesir yn fewnol, gan y bydd angen y rhain arnynt i benderfynu a ydynt am apelio ai peidio.

## Ffactorau sy'n effeithio ar ymgeiswyr unigol

Os bydd gwaith yn cael ei golli, dylid rhoi gwybod i City & Guilds yn syth am ddyddiad colli'r gwaith, sut digwyddodd hyn, a phwy oedd yn gyfrifol am ei golli. Dylai canolfannau ddefnyddio ffurflen JCQ, JCQ/LCW, i roi gwybod i Wasanaethau Cwsmeriaid City & Guilds am yr amgylchiadau.

Mae'n bosibl y bydd angen sylw unigol ar ymgeiswyr sy'n symud o un ganolfan i ganolfan arall yn ystod y cwrs. Mae'r camau gweithredu posibl yn dibynnu ar yr adeg y mae'r ymgeisydd yn symud. Dylai canolfannau gysylltu â City & Guilds cyn gynted â phosibl i ofyn am gyngor ar drefniadau priodol mewn achosion unigol.

## Camymddwyn

Gweler nodiadau canllaw City & Guilds, *Managing cases of suspected malpractice in examinations and assessments*. Mae'r ddogfen hon yn nodi'r gweithdrefnau i'w dilyn er mwyn adnabod achosion o gamymddwyn gan ddysgwyr a/neu staff canolfan a rhoi gwybod amdanynt, a'r

camau y gall City & Guilds eu cymryd ar ôl hynny. Mae'r ddogfen yn cynnwys enghreifftiau o gamymddwyn gan ddysgwyr a chanolfannau ac yn esbonio cyfrifoldebau staff canolfannau i roi gwybod am gamymddwyn gwirioneddol neu gamymddwyn a amheuir. Gall canolfannau weld y ddogfen hon ar wefan City & Guilds.

Nodir enghreifftiau o gamymddwyn gan ddysgwyr isod (sylwer nad yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr):

- ffugio tystiolaeth asesu neu ddogfennau canlyniadau
- llên-ladrad o unrhyw fath
- cydgynllwynio ag eraill
- copïo gwaith ymgeisydd arall (gan gynnwys defnyddio TGCh er mwyn helpu i wneud hynny), neu ganiatáu i waith gael ei gopïo
- dinistrio gwaith rhywun arall yn fwriadol
- datganiadau dilysrwydd anwir mewn perthynas ag asesiadau
- personadu.

Mae gweithredu fel hyn yn gyfystyr â chamymddwyn, a bydd cosb (e.e. diarddel o'r asesiad) am wneud hyn.

Gweler y ffurflen yn y ddogfen *Managing cases of suspected malpractice in examinations and assessments*.

## Trefniadau mynediad ac ystyriaeth arbennig

Ystyr trefniadau mynediad yw addasiadau sy'n galluogi ymgeiswyr ag anableddau, anghenion addysgol arbennig ac anafiadau dros dro i sefyll yr asesiad a dangos eu sgiliau a'u gwybodaeth heb newid gofynion yr asesiad. Rhaid i'r trefniadau hyn gael eu gwneud cyn i asesiad gael ei gynnal.

Cyfrifoldeb y ganolfan yw sicrhau ar ddechrau rhaglen ddysgu y bydd yr ymgeiswyr yn gallu bodloni gofynion y cymhwyster.

Cyfeiriwch at ddogfen *Trefniadau mynediad ac addasiadau rhesymol* y Cyd-gyngor Cymwysterau ac *Access arrangements - when and how applications need to be made to City & Guilds* am ragor o wybodaeth. Mae'r rhain ar gael ar wefan City & Guilds:
**http://www.cityandguilds.com/delivering-ourqualifications/centre-development/centre-document-library/policies-andprocedures/**
**access-arrangements-reasonable-adjustments**

## Ystyriaeth arbennig

Gallwn roi ystyriaeth arbennig i ymgeiswyr sydd wedi cael salwch, anaf neu anhwylder dros dro ar adeg yr asesiad. Lle y byddwn yn gwneud hyn, bydd yn digwydd ar ôl yr asesiad.

Dylai'r Swyddog Arholiadau (neu unigolyn sy'n cyflawni rôl gyfatebol) yn y ganolfan gyflwyno ceisiadau am drefniadau mynediad neu ystyriaeth arbennig i City & Guilds. Am ragor o wybodaeth, gweler y fersiwn gyfredol o ddogfen y Cyd-gyngor Cymwysterau, *Canllaw i'r broses ystyriaeth arbennig*. Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan City & Guilds:
**http://www.cityandguilds.com/delivering-ourqualifications/ centre-development/centre-document-library/policies-andprocedures/**

**access-arrangements-reasonable-adjustments**

# 4. Asesu

## Crynodeb o'r dulliau asesu

Rhaid i ymgeiswyr gwblhau'r canlynol yn llwyddiannus:

- portffolio o dystiolaeth
- project, sy'n cynnwys cyfres o dasgau ysgrifenedig, arsylwi'n uniongyrchol ar ymarfer a thrafodaeth broffesiynol

Mae'r asesiadau wedi cael eu llunio i ymgeiswyr ddangos eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u sgiliau o ran y ddwy uned orfodol a chynnwys y llwybr a ddewiswyd ganddynt. Mae'r asesiadau yn cynnwys nifer o elfennau ysgrifenedig er mwyn adlewyrchu gwybodaeth a dealltwriaeth, yn ogystal ag elfennau o ymarfer sy'n cynnwys arsylwi'n uniongyrchol ar ymarfer dysgwyr er mwyn cadarnhau eu cymhwysedd yn y sgiliau ymarferol sydd eu hangen ar gyfer cynnwys y llwybr a ddewiswyd ganddynt.

Gellir llwytho pecyn asesu i lawr sy'n nodi gofynion penodol yr asesiad o wefan y Consortiwm.

## Efelychu

Creu sefyllfa artiffisial at ddibenion asesu yw efelychu. Dylai unrhyw efelychu gael ei gyfyngu i gael tystiolaeth lle nad yw'n bosibl ei chynhyrchu'n naturiol drwy weithgareddau gwaith arferol (e.e. oherwydd pryderon yn ymwneud ag iechyd a diogelwch).

Ar gyfer y cymhwyster hwn, **ni** chaniateir efelychu.

## Cyfyngiadau amser

Rhaid rhoi'r cyfyngiadau canlynol ar waith wrth asesu'r cymhwyster hwn:

- rhaid i bob uned gael ei chyflawni, a rhaid i'r gofynion cysylltiedig gael eu cwblhau a'u hasesu o fewn cyfnod ymrestru'r ymgeisydd.

## Cydnabod dysgu blaenorol (CDB)

Ystyr cydnabod dysgu blaenorol yw defnyddio profiad neu gymwysterau blaenorol dysgwyr a gyflawnwyd yn barod i gyfrannu tuag at gymhwyster newydd. Caniateir CDB ar gyfer yr uned ganlynol:

Uned 405 Arwain ymarfer plentyn-ganolog

Am ragor o wybodaeth am CDB a pholisi CDB y consortiwm, cyfeiriwch at y Llawlyfr Gweinyddu (Cyflwyniad i weithio gyda City & Guilds a CBAC) sydd ar gael ar wefan y consortiwm yn www.dysguiechydagofal.cymru.

## Dyfarnu'r cymhwyster

Caiff y cymhwyster ei ddyfarnu'n seiliedig ar gwblhau pob un o'r tasgau asesu. Rhaid i ymgeiswyr lwyddo ym mhob un o'r asesiadau er mwyn i radd cymhwyster gyffredinol gael ei dyfarnu iddynt.

## Cyfleoedd ailsefyll

Ni chyfyngir ar nifer y troeon y gellir ailsefyll ar gyfer y cymhwyster hwn.

Gweler y pecyn asesu am ganllawiau ar y cyfleoedd ailsefyll sydd ar gael i ymgeiswyr sy'n cwblhau'r asesiadau, ac am ganllawiau pan na fydd ymgeisydd yn cwblhau unrhyw un o elfennau'r asesiad yn llwyddiannus.

## Rolau

Bydd y rolau canlynol yn ymwneud â'r gwaith o asesu'r cymhwyster hwn.

**Aseswr mewnol**[1] – aseswr cymwysedig, sy'n helpu i gyflwyno'r asesiad. Bydd yr aseswr mewnol yn gyfrifol am lunio barn asesu ar gyfer y tasgau a asesir yn fewnol.

**Swyddog Sicrhau Ansawdd Allanol** – yn gyfrifol am gadarnhau bod y gwaith o gynllunio, cynnal ac asesu'r tasgau a asesir yn fewnol wedi'i wneud yn unol â pholisïau a gweithdrefnau City & Guilds.

**Cyflogwr/Rheolwr** – a fydd yn deall prosesau mewnol arferol y gweithle/lleoliad, dogfennaeth, systemau cyfathrebu ac ati, ac yn gallu asesu a yw'r ymgeisydd yn eu defnyddio'n briodol. Lle y bo'n briodol, gall roi tystiolaeth fel tyst arbenigol ar gyfer y portffolio mewn perthynas ag arferion y gweithle o ddydd i ddydd. Bydd y cyflogwr/rheolwr yn helpu'r aseswr mewnol i gadarnhau cynllun project yr ymgeisydd ac felly'r project.

**Gweithiwr Proffesiynol Arall** – tyst arbenigol – ar gyfer gweithdrefnau arbenigol neu unedau y mae angen arbenigedd penodol ar eu cyfer, gall lleoliadau roi tystiolaeth ychwanegol gan dyst arbenigol.

**Swyddog Sicrhau Ansawdd Mewnol** – yn sicrhau bod y broses o asesu tystiolaeth asesu mewnol o ansawdd cyson a phriodol.

**Aseswr Allanol City & Guilds**[2] – aseswr cymwysedig, a benodwyd gan City & Guilds, sy'n gyfrifol am lunio'r farn asesu derfynol ar yr ymgeisydd ar gyfer y tasgau a asesir yn allanol.

**Aseswr Arweiniol City & Guilds –** bydd yn gyfrifol am samplu a safoni barn asesu aseswyr allanol.

**Tiwtor** – meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o gynnwys y cymhwyster. Gall y tiwtor gefnogi mynediad at asesiad ond nid yw'n gyfrifol am wneud unrhyw benderfyniad ar ganlyniadau asesu.

**Nodyn**
Mewn amgylchiadau lle bydd yr ymgeisydd yn gweithio mewn sefyllfa lle nad oes perthynas reoli uniongyrchol, byddai disgwyl i'r elfennau proses y nodir yma fod angen i rôl y rheolwr fod yn berchen arnynt, gael eu cyflawni'n llawn drwy rôl yr aseswr.

[1] I gadarnhau gofynion asesu mewnol y cymhwyster hwn, gweler yr adran **'Gofynion Canolfannau'** yn y Llawlyfr hwn

[2] I gadarnhau gofynion asesu allanol y cymhwyster hwn, gweler yr adran **'Cyflwyno'r Cymhwyster'** yn y Llawlyfr hwn

# 5 Unedau

## Yr unedau sydd ar gael

Mae'r holl unedau wedi'u cynnwys yn y llawlyfr cymhwyster hwn:

| Rhif yr Uned | Teitl yr Uned |
|---|---|
| 405 | Arwain ymarfer plentyn-ganolog |
| 415 | Sgiliau astudio |
| 416 | Gweithio gyda theuluoedd a gofalwyr i ddatblygu sgiliau rhianta |
| 417 | Gweithio gyda Phlant ag Anghenion Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu (SLCN) |
| 419 | Adnabod a Chefnogi Plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) |

## Canllawiau ar gyflwyno cynnwys yr unedau

Mae'r crynodeb canlynol yn rhoi canllawiau ar y gwahanol elfennau sydd i'w cael yn yr unedau a gwybodaeth am gyflwyno'r unedau.

### Gwerth oriau dysgu dan arweiniad (ODA)

Mae'r gwerth hwn yn nodi faint o Oriau Dysgu dan Arweiniad y bydd eu hangen ar gyfartaledd i gyflwyno uned i ymgeisydd. Mae hyn yn cynnwys cyswllt â thiwtoriaid, hyfforddwyr neu hwyluswyr fel rhan o'r broses ddysgu, a dysgu ffurfiol gan gynnwys dosbarthiadau, sesiynau hyfforddi, seminarau a thiwtorialau. Mae'r gwerth hwn hefyd yn cynnwys yr amser a gymerwyd i baratoi ar gyfer yr asesiad ar gyfer yr uned, a'i gwblhau. Mae oriau dysgu dan arweiniad yn cael eu talgrynnu i'r pum awr agosaf.

### Gwerth credyd

Mae'r gwerth hwn yn seiliedig ar yr oriau dysgu dan arweiniad **yn ogystal ag** unrhyw amser dysgu ychwanegol neu weithgareddau ychwanegol y bydd eu hangen ar y dysgwr i gwblhau'r uned. Er enghraifft, gall hyn gynnwys amser ar gyfer dysgu anffurfiol, astudio preifat, ymarfer, myfyrio ac ati. Mae cyfanswm yr oriau yn cael ei rannu â 10 i roi'r gwerth credyd. Mae gwerthoedd credyd yn cael eu talgrynnu i'r rhif cyfan agosaf.

### Crynodeb o'r uned

Yn y rhan hon mae crynodeb byr, lefel uchel o gynnwys yr uned gan gynnwys pa wybodaeth ac ymarfer sydd dan sylw. Hefyd, gall y crynodeb o'r uned roi gwybodaeth am fathau o leoliadau mae'r uned yn berthnasol iddynt neu wedi'i hatal rhag cael ei chyflwyno ynddynt.

### Deilliannau dysgu

Mae deilliannau dysgu yn grwpio darnau o wybodaeth gysylltiedig ynghyd ac yn cael eu cyflwyno fel canlyniad y broses ddysgu, h.y. yr hyn y mae'n rhaid i ddysgwyr ei ddeall neu allu ei wneud yn dilyn yr addysgu a'r dysgu. Mae nifer o feini prawf asesu yn ategu pob deilliant dysgu.

### Meini prawf asesu

Mae meini prawf asesu'n rhannu'r deilliant dysgu yn feysydd llai i'w cyflawni. Gall meini prawf asesu gael eu hategu gan amrediad, a nodir gan eiriau neu gymalau mewn testun **trwm**.

### Amrediad

Bydd rhai geiriau neu gymalau yn y meini prawf asesu mewn testun **trwm**. Mae hyn yn golygu bod amrediad wedi cael ei chyflwyno a fydd i'w gweld ar waelod y deilliant dysgu. Mae'r amrediad yn cynnwys gwybodaeth am y manylder sydd ei angen ar gyfer maen prawf asesu penodol. Nid yw'r amrediad yn rhestr gynhwysfawr. Efallai y byddai enghreifftiau eraill yn addas i'r maes testun hwnnw. Fodd bynnag, mae'r rhai sydd wedi'u cynnwys yn yr amrediad yn allweddol ar gyfer cyflwyno cynnwys yr uned – **rhaid ymdrin â'r holl elfennau a restrir yn yr amrediad fel rhan o gyflwyno'r uned.**

### Canllawiau cyflwyno

Mae'r canllawiau hyn wedi'u hanelu at diwtoriaid, hyfforddwyr neu hwyluswyr wrth addysgu'r uned ac maent yn cynnwys ystyriaethau penodol ar gyfer cyflwyno cynnwys yr uned lle y bo

hynny'n berthnasol. Er enghraifft, cysylltiadau y gellir eu gwneud rhwng unedau o fewn y cymhwyster neu enghreifftiau o'r ffordd y gellir cyflwyno'r cynnwys i ddysgwyr.

**Geirfa**
Mae'n cynnwys diffiniadau o derminoleg allweddol y cyfeirir ati yn yr uned.

**Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol cysylltiedig**
Cyflwynir y rhain fel canllaw i diwtoriaid, hyfforddwyr neu hwyluswyr sy'n cyflwyno'r cynnwys ac maent yn dangos lle y gall cynnwys yr unedau fod yn berthnasol i Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol cysylltiedig. Dim ond canllaw yw'r rhestr hon ac nid yw'n gynhwysfawr. Nid yw'n ofynnol i Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol gael eu cyflwyno fel rhan o unedau. D.S. – er y gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y rhai a restrir yn gyfredol, mae'n bosibl y bydd fersiynau newydd neu ddiwygiedig o Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol yn disodli'r rhai a restrir.

**Deddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig**
Cyflwynir y rhain er hwylustod cyfeirio ac er mwyn rhoi cyd-destun i'r uned, a gellir eu defnyddio er mwyn helpu i gyflwyno'r cynnwys a rhoi cyd-destun ehangach. Dim ond canllaw yw'r rhestr hon ac nid yw'n gynhwysfawr. Dylid sicrhau bod yr holl ddeddfwriaeth, canllawiau, gwefannau a dogfennau ac ati a restrir yn gyfredol ac yn berthnasol cyn cyflwyno cynnwys yr uned.

# Uned 405 Arwain ymarfer plentyn-ganolog

| | |
|---|---|
| **Lefel:** | 4 |
| **ODA:** | 115 |
| **Credyd:** | 22 |
| **Crynodeb o'r Uned:** | Nod yr uned hon yw helpu dysgwyr i feithrin y wybodaeth a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen i arwain ymarfer plentyn-ganolog<br>At ddiben yr uned hon mae "Arweinydd" yn cyfeirio at y rhai sydd â llwyth achosion dirprwyedig neu raglen grŵp, sy'n gweithio'n annibynnol o fewn protocolau cytûn. Gallai hyn gynnwys y rhai sy'n gweithio 1:1 neu mewn grŵp. |

## Deilliant dysgu:

1. Deall datblygiad dulliau seiliedig ar hawliau a sut mae'r rhain yn parhau i ddatblygu ac yn dylanwadu ar ymarfer plentyn-ganolog

## Meini prawf asesu

Rydych chi'n deall:

1.1 Y ffordd y mae dulliau seiliedig ar hawliau ar gyfer plant:

- wedi datblygu dros amser
- wedi'u hymgorffori mewn confensiynau, deddfwriaeth, fframweithiau rheoleiddio a Pholisi Llywodraeth Cymru

1.2 yn dylanwadu ar arferion lleol ac yn eu llywio

## Deilliant dysgu:

2. Deall sut i hybu tegwch, cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant

## Meini prawf asesu

Rydych chi'n deall:

2.1 Deddfwriaeth a pholisi sy'n cefnogi tegwch, cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant

2.2 Y ffordd y mae ymddygiadau a gwerthoedd yn y gweithle/lleoliad yn hybu tegwch, cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant

2.3 Effaith gwahaniaethu, stereoteipio, rhagfarn ac anghydbwysedd pŵer ar degwch, cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant

## Deilliant dysgu:

3. Deall yr effaith mae iaith a diwylliant Cymru yn ei chael ar eich gweithle/lleoliad

### Meini prawf asesu

Rydych chi'n deall:

3.1 Deddfwriaeth, Polisi Llywodraeth Cymru a Safonau'r Gymraeg a'r ffordd y mae'r rhain yn ymwneud â hawliau plant

3.2 Dulliau y gellir eu defnyddio i hybu ac annog y defnydd o'r Gymraeg a'i diwylliant yn y gweithle/lleoliadau

---

### Deilliant dysgu:

4. Deall ymyrryd yn gynnar ac atal

### Meini prawf asesu

Rydych chi'n deall:

4.1 Pwysigrwydd ymyrryd yn gynnar ac atal

4.2 Modelau a dulliau o ymyrryd yn gynnar ac atal

4.3 Pwysigrwydd sicrhau bod plant a'u teuluoedd/gofalwyr yn cael eu hannog a'u cefnogi i fynegi eu teimladau, eu safbwyntiau a'u dewisiadau ynghylch 'yr hyn sy'n bwysig' iddynt

---

### Deilliant dysgu:

5. Deall effaith diogelu ar eich gweithle/lleoliad

### Meini prawf asesu

Rydych chi'n deall:

5.1 Cyfrifoldebau yn y gweithle/lleoliad mewn perthynas â diogelu plant

5.2 Gofynion rheoleiddio ar gyfer diogelu

5.3 Rolau a chyfrifoldebau'r Swyddog Diogelu Dynodedig mewn lleoliad

5.4 Ymarfer/adolygiadau o achosion difrifol sy'n ymwneud â phlant a'u heffaith ar ymarfer

5.5 Rolau a chyfrifoldebau tîm amlasiantaethol mewn perthynas ag amddiffyn plant

5.6 Rolau a chyfrifoldebau mewn gwahanol gyfarfodydd diogelu

5.7 Sut i arwain amgylchedd sy'n hybu diogelu

5.8 Sut mae polisi ac ymarfer yn cefnogi ac yn hybu diogelu

---

### Deilliant dysgu:

6. Gwybod sut mae damcaniaethau a modelau yn cefnogi'r ddealltwriaeth o ddatblygiad plant

### Meini prawf asesu

Rydych chi'n deall:

6.1 Y rhyngysylltiad rhwng ffactorau biolegol, seicolegol ac amgylcheddol-gymdeithasol a'u perthynas â datblygiad plant

6.2 Y ffordd y caiff damcaniaethau a modelau sy'n ymwneud â Phrofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod eu llywio gan ffactorau biolegol, seicolegol ac amgylcheddol-gymdeithasol

# Uned 405 Arwain ymarfer plentyn-ganolog

## Gwybodaeth Ategol

## *Canllawiau cyflwyno*

Anogir dysgwyr i fyfyrio ar eu lleoliad gwaith eu hunain a chyfeirio ato yn ystod y broses o gyflwyno cynnwys yr uned hon.

| Cynnwys | Ymhelaethiad/Canllawiau |
|---|---|
| DD1 | **Amcanion thema**<br>• Cyfrifoldebau rheolwyr i ddeall y cysylltiadau rhwng deddfwriaeth, polisi ac ymarfer ar lefel leol a chenedlaethol<br>• Sut mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn ategu deddfwriaeth a pholisi o'r fath a'r ffordd y mae hyn wedi effeithio ar ymarfer yn y gorffennol, y presennol a'r dyfodol<br>• Sut mae trefniadau rheoleiddio ac arolygu wedi cael eu haddasu i fod yn blentyn-ganolog ac yn rhoi Confenswin y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn wrth wraidd y trefniadau hynny |
| | **Testunau y dylid ymdrin â nhw:**<br>• Ffynonellau gwybodaeth mewn perthynas â deddfwriaeth hawliau dynol a Chonfensiynau ac Egwyddorion hawliau'r Cenhedloedd Unedig<br>• Bwriad deddfwriaeth, Confensiynau ac Egwyddorion hawliau dynol yng nghyd-destun gofal plant<br>• Sut mae deddfwriaeth hawliau dynol, Confensiynau ac Egwyddorion yn cefnogi ymarfer plentyn-ganolog ym maes iechyd a gofal cymdeithasol<br>• Cysylltiadau rhwng fframweithiau rheoleiddio (AGC, Estyn ac AGIC) a thegwch, cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant<br>• Sut mae gwerthoedd sy'n seiliedig ar hawliau yn cyfrannu at ymarfer plentyn-ganolog<br>• Pam y mae'r ddeddfwriaeth a'r safonau'n berthnasol i hawliau'r plentyn<br>• Yr ymddygiadau a'r gwerthoedd y mae'r ddeddfwriaeth a'r safonau yn eu disgwyl gan y rhai sy'n gweithio ym maes gofal plant<br>• Sut mae'r ymddygiadau hyn yn cefnogi arweinwyr, rheolwyr a gweithwyr i roi ymarfer plentyn-ganolog ar waith |
| | **Adnoddau:**<br><br>Rhaglen i blant a phobl ifanc:<br>**https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-06/saith-nod-craidd-ar-gyfer-plant-a-phobl-ifanc.pdf**<br><br>**<u>Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir i blant hyd at 12 oed</u>**<br><br>Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn:<br>**https://downloads.unicef.org.uk/wp-content/uploads/2010/05/UNCRC_united_nations_convention_on_the_rights_of_the_child.pdf?_ga=2.262879820.1757423407.1559037849-1521238580.1559037849** |
| DD2 | **Amcanion thema:**<br>• Deall sut mae anfantais ac allgáu yn gallu effeithio ar degwch gwasanaethau<br>• Sut mae polisïau a gweithdrefnau mewn lleoliadau yn cefnogi cydraddoldeb ac amrywiaeth |

| | |
|---|---|
| | **Testunau y dylid ymdrin â nhw:**<br><br>• Termau allweddol fel tegwch, cydraddoldeb, amrywiaeth a gwahaniaethu<br>• Sut mae tegwch yn effeithio (yn gadarnhaol ac yn negyddol) ar gydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a hawliau'r plentyn<br>• Ethos deddfwriaethau a chonfensiynau (Deddf Hawliau Dynol 1998, Deddf Cydraddoldeb 2010, Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn 1990, Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau 2006, Canllawiau Fraser 1985) a sut mae'r rhain yn ymwneud â thegwch, cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant<br>• Cysylltiadau rhwng deddfwriaeth hawliau dynol a Chonfensiynau ac Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer hawliau a thegwch, cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant<br>• Cysylltiadau rhwng fframweithiau rheoleiddio (AGC, Estyn ac AGIC) a thegwch, cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant<br>• Yr hyn y mae angen i'r gweithle/lleoliad ei ystyried er mwyn hybu tegwch, cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, gan gynnwys: y Gymraeg/dewis iaith, diwylliant, crefydd, lleoliad daearyddol a mynediad at wasanaethau, anghenion ychwanegol<br>• Yr effaith y gall stereoteipio, rhagfarn, gwahaniaethu a throsedd casineb ei chael ar lesiant plant sy'n defnyddio gwasanaethau gofal plant<br>• Cysylltiadau â Chodau Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol |
| | **Adnoddau:**<br>• Sefydliad Hawliau Dynol Prydain<br>• Gwefan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol: Beth yw hawliau dynol<br>• Comisiynydd Plant Cymru (2017)<br>• UNCRC – Hawliau Plant: Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn<br>• Inequalities in health: Adroddiad Black<br>• Adroddiad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (2015) Eich hawl i gydraddoldeb gan wasanaethau gofal iechyd a gofal cymdeithasol, tt 5-27; tt 35-53; geirfa tt 73-78, gan gynnwys y termau canlynol:<br>  - Polisi cydraddoldeb<br>  - Hyfforddiant ar gydraddoldeb<br>  - Gwahaniaethu uniongyrchol<br>  - Gwrthwahaniaethu anuniongyrchol<br>  - Nodweddion gwarchodedig |
| DD3 | **Amcanion thema:**<br>• Hybu a chodi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a'r gofynion diwylliannol ar leoliadau gofal plant<br>• Effaith y Gymraeg a'i diwylliant ar ddatblygiad plant |
| | **Testunau y dylid ymdrin â nhw:**<br>• Deddf yr Iaith Gymraeg 1993<br>• Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011<br>• Safonau'r Gymraeg 2016<br>• Fframwaith 'Mwy na geiriau' a'r 'Cynnig Rhagweithiol'<br>• Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr |

| | |
|---|---|
| | • Sut mae dewis iaith yn ymwneud â hawliau'r plentyn, tegwch, cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant<br>• Arferion gorau o ran darpariaeth ddwyieithog (gan sicrhau bod y ddwy iaith yn cael eu defnyddio mewn arddangosiadau, gweithgareddau dyddiol a chyfathrebu)<br>• Dulliau ar gyfer trochi ieithyddol |
| | **Adnoddau:**<br><br>• Llywodraeth Cymru (2017) Cymraeg 2050: Strategaeth y Gymraeg tt 4-13<br>• Fideo YouTube Mwy na geiriau / More than just words –<br>• Gofal Cymdeithasol Cymru: Gweithio gydag adnoddau Cymraeg<br>• Mudiad Meithrin: **https://www.meithrin.cymru/cychwyngorau/**<br>• Safonau'r Gymraeg ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus |
| DD4 | **Amcanion thema:**<br>• Deddfwriaeth, polisi a rhaglenni Llywodraeth Cymru sy'n cefnogi ymyrryd yn gynnar ac atal<br>• Strategaethau a modelau ymyrryd yn gynnar ac atal<br>• Damcaniaethau a dulliau ar gyfer ymyrryd yn gynnar ac atal<br>• Prosesau ataliol<br>• Llais y plentyn |
| | **Testunau y dylid ymdrin â nhw:**<br>• Modelau a dulliau ar gyfer ymyrryd yn gynnar ac atal, gan gynnwys:<br>  - Rhaglen y 1,000 Diwrnod Cyntaf<br>  - Plant Iach Cymru<br>  - Dechrau'n Deg<br>  - Tîm o amgylch y teulu<br>  - Fframwaith gweithredu Law yn llaw at blant a phobl ifanc 2015<br>  - 'Rhianta Cadarnhaol'<br>• Pwysigrwydd cyfranogiad plant a'u teuluoedd/gofalwyr |
| | **Adnoddau:**<br>Hwb Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod:<br>**http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/888/tudalen/88545**<br>Y Sefydliad Gofal Cymdeithasol er Rhagoriaeth – Prevention and wellbeing:<br>**https://www.scie.org.uk/prevention/**<br>Family action, Grasping the nettle: **https://www.family-action.org.uk/content/uploads/2014/07/Early-Intervention-Grasping-the-Nettle-Full-Report.pdf**<br><br>Adnoddau Dechrau'n Deg Llywodraeth Cymru: **https://llyw.cymru/cymorth-i-rieni-gan-dechraun-deg-canllawiau** |
| DD5 | **Amcanion thema:**<br>• Rôl y sefydliad a'r unigolyn diogelu dynodedig o ran cadw plant yn ddiogel<br>• Y rôl y gall gweithwyr ei chwarae o ran rhannu gwybodaeth ag eraill a mynd i gyfarfodydd diogelu<br>• Pwysigrwydd gweithio gydag eraill<br>• Sut y gall yr amgylchedd amddiffyn plant<br><br>**Testunau y dylid ymdrin â nhw:** |

| | |
|---|---|
| | • Enghreifftiau o unigolion yn cael eu cam-drin o ganlyniad i fethiant sefydliad i'w diogelu e.e. Daniel Pelka, Baby P, Victoria Climbié, Child BR, Child N, Katie<br>• Sut mae adolygiadau o achosion difrifol fel Daniel Pelka, Baby P, Victoria Climbié, Child BR, Child N, Katie wedi dylanwadu ar ddeddfwriaeth, polisi ac ymarfer.<br>• Adnoddau ar gyfer gwybodaeth am ddiogelu |
| | **Adnoddau:**<br>• NSPCC – adolygiadau cyhoeddedig o achosion: **https://learning.nspcc.org.uk/case-reviews/recently-published-case-reviews/**<br>• Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol Cymru: Astudiaethau achos http://bwrdddiogelu.cymru/practice-reviews<br>• Adolygiadau thematig byrddau diogelu lleol<br>• Pecyn Hyfforddiant Sylfaenol Cymru Gyfan ar Ymwybyddiaeth o Ddiogelu Gofal Cymdeithasol Cymru<br>• Adroddiad Ar Goll mewn Gofal (2000) yr Adran Iechyd<br>• Gwefan Grŵp Adolygu Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan (2014 ) Plant yng Nghymru<br>• Torri'r Cylch (2017) Llywodraeth Cymru<br>• Gwefan Bwrdd Diogelu De-ddwyrain Cymru: ffilm Ymgyrch Thistle (2012) sy'n codi ymwybyddiaeth o faterion Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant<br>• Fideo SCIE: Safeguarding children: a new approach to case reviews<br>• Fideo SCIE: Partnership working in child protection |
| DD6 | **Amcanion thema:**<br>• Cyflwyniad i ddamcaniaethau effaith fiolegol, amgylcheddol-gymdeithasol a seicolegol ar ddatblygiad plant.<br>• Cyflwyniad i'r model bioseicogymdeithasol<br>• Dylanwad y model bioseicogymdeithasol ar ymarfer person-ganolog/plentyn-ganolog<br>• Sut mae ffactorau biolegol, cymdeithasegol a seicolegol yn effeithio ar fywydau plant ac yn esbonio effaith Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod. |
| | **Testunau y dylid ymdrin â nhw:**<br>• Cyflwyniad i sut mae damcaniaethau a modelau biolegol, cymdeithasegol a seicolegol yn ein helpu i ddeall datblygiad cyfannol plant.<br>• Sut mae'r model bioseicogymdeithasol yn ein helpu i ddeall Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod a'u heffaith ar blant drwy gydol eu taith bywyd |
| | **Adnoddau:**<br>Hwb Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod:<br>**http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/888/tudalen/88545** |

## *Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol cysylltiedig*

- **SCDLMCB2:** Arwain a rheoli darpariaeth gwasanaethau sy'n hybu llesiant unigolion
- **SCDLMCB3:** Arwain a rheoli darpariaeth gwasanaethau gofal sy'n ymdrin yn effeithiol â chyfnodau o drosglwyddo a digwyddiadau pwysig mewn bywyd

- **SCDLMCB6:** Arwain a rheoli darpariaeth gwasanaethau gofal sy'n cefnogi datblygiad plant a phobl ifanc
- **SCDLMCE1:** Arwain a rheoli systemau ac ymarfer cyfathrebu effeithiol

## *Deddfwriaeth gysylltiedig*

- Polisi a Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan (2008)
- Deddf Plant 1989 a (2004)
- Cynllun Gweithlu Gofal Plant, Chwarae a Blynyddoedd Cynnar 2017 Llywodraeth Cymru
- Cwricwlwm i Gymru, Cwricwlwm am Oes. Llywodraeth Cymru 2015
- Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr erbyn 2050
- Deddf Diogelu Data (1998)
- Deddf Cydraddoldeb (2010)
- Y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol
- Deddf Hawliau Dynol (1998)
- Strategaeth PREVENT (2015)
- Deddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf (2006)
- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) (2014)
- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (1989)
- Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) (2015)
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015
- Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (lleol)
- Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 6) (2017)
- Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg
- Gweithio Gyda'n Gilydd dan Ddeddf Plant (2004)

## *Adnoddau*

- Arolygiaeth Gofal Cymru – https://arolygiaethgofal.cymru/ein-hadroddiadau
- ESTYN –
- Adolygiad thematig – **https://www.estyn.llyw.cymru/adroddiadau-thematig**
- Adroddiadau blynyddol – **https://www.estyn.llyw.cymru/adroddiad-blynyddol**
- Canllawiau arolygu ar gyfer lleoliadau nas cynhelir - **https://www.estyn.llyw.cymru/dogfen/llawlyfr-arweiniad-ar-gyfer-arolygu-addysg-gofal-mewn-lleoliadau-reoleiddir-heblaw-ysgolion**
- Arolygiaeth Iechyd Cymru
- https://agic.org.uk/ein-hadroddiadau
- Cyhoeddiadau Comisiynydd Plant Cymru
- https://www.complantcymru.org.uk/cyhoeddiadau/
- Cymru Ifanc
- http://www.cymruifanc.cymru/
- Hawliau a chyfranogiad plant
- https://www.childrenscommissioner.gov.uk/wp-content/uploads/2017/07/Childrens_participation_in_decision-making_-_survey_of_participation_workers.pdf
- Chwarae Cymru
- https://www.chwaraecymru.org.uk/cym/cartref
- Y saith nod craidd

- **https://gweddill.llyw.cymru/topics/people-and-communities/people/children-and-young-people/rights/implementation-of-childrens-rights/index1b1b.html?force=cy**
- Y Safonau gofynnol cenedlaethol ar gyfer gofal plant a reoleiddir i blant hyd at 12 oed. **https://arolygiaethgofal.cymru/sites/default/files/2018-01/160411regchildcarecy.pdf**
- Llywodraeth Cymru:
- Cynllun gweithlu gofal plant, chwarae a blynyddoedd cynnar
- https://gweddill.gov.wales/topics/people-and-communities/people/children-and-young-people/early-years/childcare-play-early-years-workforce-plan/?lang=cy
- Fframwaith Canlyniadau'r Blynyddoedd Cynnar https://gweddill.gov.wales/topics/people-and-communities/people/children-and-young-people/early-years/early-years-outcomes-framework/?lang=cy
- Damcaniaeth trawsnewid
- **www.younglives.org.uk/sites/www.younglives.org.uk/files/BvLF-ECD-WP48-Vogler-Early-Childhood-Transitions.pdf**
- Canllawiau NICE i blant a phobl ifanc
- **https://www.nice.org.uk/guidance/population-groups/children-and-young-people/products?ProductType=Guidance&Status=Published**

# Uned 415 Sgiliau astudio

| | |
|---|---|
| **Lefel:** | 4 |
| **ODA:** | 30 |
| **Credyd:** | 8 |
| **Crynodeb o'r Uned:** | Nod yr uned hon yw galluogi dysgwyr i ddeall sut y caiff sgiliau astudio eu defnyddio a'u cymhwyso, a chymhwyso'r rhain i gefnogi eu gwaith. |

## Deilliant dysgu:

1. Deall offer a thechnegau ar gyfer datblygu sgiliau dysgu ac astudio

### Meini prawf asesu

Rydych chi'n deall:

1.1 Sut i adnabod eich arddull dysgu eich hun
1.2 Sut mae eich arddull dysgu yn dylanwadu ar y defnydd o sgiliau astudio ac yn eu cefnogi
1.3 Sut i ddewis a defnyddio deunyddiau ffynhonnell

## Deilliant dysgu:

2. Cymhwyso'r defnydd o sgiliau astudio

### Meini prawf asesu

Rydych chi'n deall:

2.1 Ffactorau sy'n effeithio ar y gallu i astudio

Rydych chi'n gallu:

2.2 Defnyddio dull trefnus o gynllunio astudio personol
2.3 Defnyddio amrywiaeth o adnoddau a thechnegau ar gyfer astudio personol
2.4 Defnyddio amrywiaeth o arddulliau academaidd effeithiol

## Deilliant dysgu:

3. Defnyddio tystiolaeth ymchwil o adolygiad o wybodaeth gyhoeddedig

### Meini prawf asesu

Rydych chi'n deall:

3.1 Mathau gwahanol o dystiolaeth ymchwil
3.2 Yr amrywiaeth o ffynonellau o dystiolaeth ymchwil

3.3 Ffynonellau cefnogaeth wrth chwilio llenyddiaeth
3.4 Ystyriaethau moesegol wrth ddefnyddio tystiolaeth ymchwil o'ch ymarfer
3.5 Yr amrywiaeth o ddulliau o gasglu data
3.6 Y dulliau gwahanol y gellir eu defnyddio i ddadansoddi data
3.7 Sut i asesu dilysrwydd, dibynadwyedd a thuedd ymchwil bosibl ffynonellau
3.8 Pam mae llên-ladrad mewn ysgrifennu academaidd yn anfoesegol
3.9 Canlyniadau posibl llên-ladrad

Rydych chi'n gallu:
3.10 Defnyddio amrywiaeth o ddulliau er mwyn casglu tystiolaeth ymchwil gyhoeddedig
3.11 Dadansoddi addasrwydd tystiolaeth a gasglwyd
3.12 Cyflwyno canlyniadau astudio ac ymchwil

# Uned 415 Sgiliau astudio

Gwybodaeth Ategol

## *Canllawiau cyflwyno*

Bydd **arddulliau academaidd** yn amrywio ond fel arfer maent yn cael eu hysgrifennu yn y trydydd person. Mae angen arddulliau gwahanol ar gyfer fformatau cyfathrebu ysgrifenedig megis llythrennedd digidol; ysgrifennu myfyriol , ysgrifennu adroddiadau, ysgrifennu traethodau. Mae angen strwythurau penodol ar gyfer y rhan fwyaf ohonynt ac fel arfer cânt eu hamlinellu yn y fanyleb.

Am fwy o wybodaeth am arddulliau academaidd penodol gweler:
**https://help.open.ac.uk/academic-writing-style**

**Rhoi ystyriaethau moesegol ar waith:** er mwyn diogelu preifatrwydd a chyfrinachedd unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau, ni ddylai fod modd adnabod unrhyw unigolyn, plentyn, gweithiwr na lleoliad gweithle mewn tystiolaeth o ymarfer.

**Ffactorau sy'n effeithio ar y gallu i astudio:**

- amser,
- lle i weithio,
- amgylchedd tawel,
- straen,
- mynediad at adnoddau,
- diffyg cwsg

**Arddulliau dysgu:** mae'n cyfeirio at y ffordd y mae unigolyn yn dewis dysgu/astudio, drwy adnabod arddull dysgu penodol y gall dysgwr ei ddefnyddio i addasu ei sgiliau astudio. Am fwy o wybodaeth gweler

https://help.open.ac.uk/making-the-most-of-your-learning-style

**Llên-ladrad:** mae'n golygu cyflwyno gwaith rhywun arall fel eich gwaith eich hun. Wrth ddefnyddio deunyddiau cyfeirio, mae angen cymryd gofal eich bod yn defnyddio eich geiriau eich hun, yn hytrach na chopïo o'r testun. Lle y defnyddir y testun gwreiddiol, dylid ei roi mewn dyfynodau a phrint italig, a dylid cyfeirnodi'r ffynhonnell. Lle rydych chi'n defnyddio eich geiriau eich hun (aralleirio) dylid cyfeirio at enw'r awdur gwreiddiol ar ddiwedd y frawddeg.
**https://www.ox.ac.uk/students/academic/guidance/skills/plagiarism?wssl=1**

**Tuedd ymchwil:** Mae'n cynnwys tuedd i gytuno pan fydd yr unigolyn sy'n dadansoddi'r data am brofi tybiaeth ragosodedig, gall hyn ddigwydd o ganlyniad i ddylanwad cyllidebwyr yr ymchwil; mae tuedd wrth ddethol yn digwydd pan gaiff data eu dethol mewn ffordd oddrychol sydd felly'n dylanwadu ar y canlyniad.

**Ffynonellau Gwybodaeth:**

Gall y rhain fod yn:

- ffynonellau sylfaenol (er enghraifft, erthygl mewn cylchgrawn a ysgrifennwyd gan yr ymchwilydd ei hun),
- ffynonellau eilaidd (er enghraifft, adolygiad llenyddiaeth, neu werslyfr sy'n cyfeirio at ymchwil cynradd awduron eraill)

Am fwy o wybodaeth gweler:
**https://hsl.lib.umn.edu/biomed/help/primary-secondary-and-tertiary-sources-health-sciences**

**Yr offer a'r technegau**

- chwilio llenyddiaeth,
- defnydd effeithiol o adnoddau electronig,
- cyfnodolion a chrynodebau ar-lein,
- aralleirio,
- cymryd nodiadau,
- cyfeirnodi (e.e. enwi, mynegeio, tudalennau cynnwys, defnyddio llyfryddiaethau);
- darllen beirniadol a gwerthusol,
- rheoli amser;
- cynllunio effeithiol a digonol,
- prawfddarllen a golygu.

**Mathau o ymchwil:**

- Mae ymchwil cynradd yn cynnwys casglu data newydd nad ydynt wedi cael eu casglu o'r blaen. Er enghraifft, arolygon sy'n defnyddio holiaduron neu gyfweliadau â grwpiau o bobl mewn grŵp ffocws.
- Mae ymchwil eilaidd yn cynnwys casglu data sydd eisoes wedi cael eu llunio. **https://www.bbc.com/bitesize/guides/zd4kq6f/revision/3**

## *Adnoddau*

BBC **https://www.bbc.com/bitesize/learn**

# Uned 416 Gweithio gyda theuluoedd a gofalwyr i ddatblygu sgiliau rhianta

| | |
|---|---|
| **Lefel:** | 4 |
| **ODA:** | 150 |
| **Credyd:** | 34 |
| **Crynodeb o'r Uned:** | Nod yr uned hon yw helpu dysgwyr i feithrin y wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen er mwyn gweithio gyda theuluoedd/gofalwyr i ddatblygu sgiliau rhianta.<br>At ddiben yr uned hon mae teuluoedd/gofalwyr yn cyfeirio at y rhai y mae'r plentyn/plant yn byw gyda nhw fel arfer neu y maent yn cael cysylltiad rheolaidd â nhw.<br>At ddiben yr uned hon mae "Arweinydd" yn cyfeirio at y rhai sydd â llwyth achosion dirprwyedig neu raglen grŵp, sy'n gweithio'n annibynnol o fewn protocolau cytûn. Gallai hyn gynnwys y rhai sy'n gweithio 1:1 neu mewn grŵp. |

## Deilliant dysgu:

1. Cymhwyso'r hyn a ddysgwyd o ymchwil ac ymarfer seiliedig ar dystiolaeth yn eich gwaith eich hun gyda theuluoedd/gofalwyr

## Meini prawf asesu

Rydych chi'n deall:

1.1 Y fframweithiau, y cynlluniau a'r strategaethau cenedlaethol sy'n ymwneud â gweithio gyda theuluoedd/gofalwyr

1.2 Sut mae ymchwil a thystiolaeth werthusol wedi llywio fframweithiau, cynlluniau a strategaethau cenedlaethol sy'n sail i'ch gwaith

1.3 Sut mae deddfwriaeth a chanllawiau ar weithio gyda theuluoedd/gofalwyr yn dylanwadu ar ddatblygiad gwasanaethau lleol

1.4 Yr amrywiaeth o fframweithiau, cynlluniau a strategaethau cenedlaethol sy'n ymwneud â gwaith gyda theuluoedd/gofalwyr a'u heffaith

1.5 Sut y caiff effaith fframweithiau, cynlluniau a strategaethau cenedlaethol eu monitro a'u gwerthuso ar lefel leol a chenedlaethol

Rydych chi'n gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

1.6 Cymhwyso'r hyn a ddysgwyd o ymchwil ac ymarfer seiliedig ar dystiolaeth yn eich gwaith eich hun gyda theuluoedd/gofalwyr

Deilliant dysgu:

2. Cyflwyno ymyriadau y gellir eu defnyddio i ymgysylltu â theuluoedd/gofalwyr er mwyn sicrhau canlyniadau rhianta cadarnhaol

Meini prawf asesu

Rydych chi'n deall:

2.1 Dulliau ac ymyriadau seiliedig ar dystiolaeth y gellir eu defnyddio i ymgysylltu â theuluoedd/gofalwyr
2.2 Sut i weithio gyda theuluoedd/gofalwyr i adnabod dulliau priodol i'w mabwysiadu wrth gydweithio yn unol â'ch rolau a'ch cyfrifoldebau
2.3 Pwysigrwydd adolygu ac addasu dulliau er mwyn diwallu anghenion teuluoedd
2.4 Manteision ymyriadau byr a rhianta cadarnhaol o ran:
   - ymddygiad rhieni
   - ymddygiad plant
   - ymlyniad
   - datblygiad plant
   - deallusrwydd emosiynol
   - gwydnwch
   - perthnasoedd
   - hyder
   - hunan-barch
   - llesiant corfforol a meddyliol

Rydych chi'n gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

2.5 Cydweithio ag eraill er mwyn nodi ymyriadau priodol ar gyfer teuluoedd/gofalwyr penodol a chytuno arnynt
2.6 Monitro a gwerthuso effeithiolrwydd yr ymyriadau gydag eraill
2.7 Dilyn prosesau atgyfeirio er mwyn rhoi cefnogaeth rhianta effeithiol ar gyfer unrhyw anghenion ychwanegol a nodwyd o'r gwaith monitro a gwerthuso

Deilliant dysgu:

3. Arwain y broses o gefnogi teuluoedd/gofalwyr i adnabod ffactorau sy'n effeithio ar eu sgiliau rhianta

Meini prawf asesu

Rydych chi'n deall:

3.1 Yr amgylchiadau a'r materion cyfoes a all effeithio ar deuluoedd
3.2 Pa wasanaethau cefnogaeth ffurfiol ac anffurfiol y gall teuluoedd/gofalwyr ofyn amdanynt
3.3 Y cyfleoedd a/neu'r rhwystrau y gall teuluoedd/gofalwyr eu hwynebu wrth gael gafael ar wasanaethau cefnogaeth
3.4 Effaith bosibl os caiff anghenion eu diwallu/os na chaiff anghenion eu diwallu
3.5 Effaith dewisiadau y gall teuluoedd/gofalwyr eu gwneud sy'n mynd yn groes i gyngor seiliedig ar dystiolaeth

Rydych chi'n gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

3.6 Arwain y gwaith o helpu teuluoedd/gofalwyr i ystyried eu hamgylchiadau a sut y gall materion cyfoes effeithio arnynt

3.7 Arwain y gwaith o gefnogi teuluoedd/gofalwyr, yn unol â'ch rolau a'ch cyfrifoldebau eich hun, er mwyn adnabod:
- cryfderau presennol a ffactorau amddiffynnol
- canlyniadau cyflawnadwy realistig
- ymddygiadau yr hoffent eu newid
- sgiliau y mae angen iddynt eu gwella
- cyfleoedd realistig i newid eu ffordd o fyw

---

## Deilliant dysgu:

4. Arwain y gwaith o helpu teuluoedd/gofalwyr i ddatblygu sgiliau rhianta drwy roi cynlluniau y cytunwyd arnynt ar waith

## Meini prawf asesu

Rydych chi'n gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

4.1 Arwain y gwaith o helpu teuluoedd/gofalwyr i ddeall pwysigrwydd:
- disgwyliadau realistig mewn perthynas ag ymddygiad a datblygiad plant
- dull cyson mewn perthynas â ffiniau ar gyfer ymddygiadau ac arferion y cytunwyd arnynt
- cynnwys plant ac ymgynghori â nhw yn unol â'u hoedran, eu galluoedd a'u cam datblygu
- canolbwyntio ar **gryfderau'r teulu**
- adnabod a gwerthfawrogi rhinweddau, sgiliau a galluoedd unigryw eu plant
- rhoi clod
- perthnasoedd teuluol tymor hir diogel a sefydlog
- adnabod cyfleoedd ac effaith amser teuluol cadarnhaol

myfyrio ar gyflawni'r rhain yn unol â'ch rôl

4.2 Arwain y gwaith o helpu teuluoedd/gofalwyr i ddeall:
- y broses asesu a chynllunio
- pwysigrwydd defnyddio dull seiliedig ar gryfderau
- cerrig milltir allweddol yn natblygiad plant
- sgiliau rhianta ymarferol a fydd yn cefnogi datblygiad cyfannol plant

4.3 Hybu'r defnydd o ddulliau cydweithio er mwyn:
- asesu ac adnabod y sgiliau rhianta y bydd angen i deuluoedd/gofalwyr eu datblygu er mwyn cyflawni'r canlyniadau a nodwyd
- cynllunio sut y caiff canlyniadau eu cyflawni
- cytuno ar y ffordd y caiff cynlluniau eu gwerthuso
- cytuno ar unrhyw wybodaeth neu gefnogaeth ychwanegol y gall fod eu hangen gan weithwyr proffesiynol neu wasanaethau eraill

4.4 Arwain y gwaith o gefnogi teuluoedd/gofalwyr i ddatblygu sgiliau rhianta yn unol â'r cynlluniau y cytunwyd arnynt

4.5 Atgyfnerthu'n gadarnhaol ryngweithio, ymddygiadau a sgiliau sy'n cael effaith gadarnhaol ar gyflawni'r canlyniadau y cytunwyd arnynt

4.6 Cefnogi teuluoedd/gofalwyr i fyfyrio ar y canlynol:

- eu rhyngweithio, eu hymddygiadau a'u sgiliau ac effaith bosibl y rhain ar gyflawni'r canlyniadau y cytunwyd arnynt
- newidiadau pellach y gall fod eu hangen i alluogi rhianta cadarnhaol a datblygu gwydnwch
- yr hyn y maent yn ei wneud yn dda a newidiadau cadarnhaol

**Amrediad**

**Cryfderau'r teulu:** teuluoedd/gofalwyr, plant.

---

Deilliant dysgu:

5. Hybu rôl gweithio amlasiantaethol a'i effaith ar ganlyniadau cadarnhaol i deuluoedd/gofalwyr

Meini prawf asesu

Rydych chi'n deall:

5.1 Rôl teuluoedd/gofalwyr fel prif randdeiliaid o ran cyflawni canlyniadau cadarnhaol
5.2 Ein rolau a'n cyfrifoldebau ein hunain mewn perthynas â chyflawni'r canlyniadau a nodwyd wrth weithio gyda theuluoedd/gofalwyr
5.3 Rolau a chyfrifoldebau gweithwyr proffesiynol allweddol mewn perthynas â gweithio gyda phlant, teuluoedd/gofalwyr
5.4 Yr angen i bawb ymgysylltu er mwyn cyflawni'r canlyniadau y cytunwyd arnynt

Rydych chi'n gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

5.5 Cefnogi dull cydweithredol o gyflawni canlyniadau cadarnhaol
5.6 Dangos egwyddorion gweithio mewn partneriaeth â theuluoedd/gofalwyr
5.7 Datblygu ac yn cynnal perthnasoedd cydweithredol â gweithwyr proffesiynol allweddol

---

Deilliant dysgu:

6. Arwain cefnogaeth rhianta i ddatblygu rhianta cadarnhaol

Meini prawf asesu

Rydych chi'n deall:

6.1 Manteision **cefnogaeth rhianta** i ddatblygu rhianta cadarnhaol
6.2 Yr ystyriaethau ymarferol y mae angen eu hystyried wrth hwyluso cefnogaeth rhianta
6.3 Yr angen am amgylchedd lle mae risgiau wedi'u hasesu sy'n:
    - sy'n ddiogel
    - sy'n barhaus/dynamig
    - sy'n addas ar gyfer gweithio gyda theuluoedd/gofalwyr
6.4 Pwysigrwydd creu amgylchedd proffesiynol, croesawgar a diogel ar gyfer cefnogaeth rhianta
6.5 Yr egwyddorion a'r damcaniaethau sy'n sail i'r gwahanol fathau o raglenni rhianta cadarnhaol, a'u rhesymeg dros eu defnyddio
6.6 Manteision a heriau cefnogaeth rhianta i gefnogi canlyniadau cadarnhaol i blant, teuluoedd/gofalwyr
6.7 Egwyddorion a damcaniaethau ffurfio grŵp, cyfnodau a dynameg

6.8 Strategaethau y gellir eu defnyddio i ymgysylltu â theuluoedd/gofalwyr a chynnal y lefel honno o ymgysylltu
6.9 Sut i sicrhau bod pob teulu/gofalwr yn cael cyfle i gyfrannu a chymryd rhan mewn sesiynau
6.10 Manteision a heriau gwrando gweithredol er mwyn datblygu rhianta cadarnhaol
6.11 Dulliau o ddatrys anghydfodau y gellid eu defnyddio wrth weithio gyda theuluoedd/gofalwyr
6.12 Pwysigrwydd cyfleu'r nodau, yr amcanion a'r blaenoriaethau i ddiwallu anghenion a bodloni disgwyliadau teuluoedd/gofalwyr a chytuno arnynt
6.13 Pwysigrwydd gweithredu mewn ffordd gynhwysol wrth bennu nodau'r teulu, cytuno arnynt a'u hadolygu
6.14 Effeithiau posibl eich barn, eich gwerthoedd a'ch credoau eich hun ar deuluoedd/gofalwyr

Rydych chi'n gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:
6.15 Cyflwyno rhaglenni rhianta cadarnhaol sy'n:
- cefnogi teuluoedd/gofalwyr i adnabod eu nodau eu hunain wrth gael cefnogaeth rhianta
- sicrhau bod nodau, amcanion a blaenoriaethau yn bodloni disgwyliadau teuluoedd/gofalwyr
- creu amgylchedd proffesiynol, agored a diogel
- sefydlu rheolau sylfaenol a chytuno arnynt wrth hwyluso cefnogaeth rhianta
- sicrhau bod nodau, amcanion a blaenoriaethau yn bodloni disgwyliadau'r rhai sy'n bresennol
- hybu cyfranogiad gweithredol gan bob teulu/gofalwr
- ystyried cydraddoldeb, amrywiaeth a dwyieithrwydd wrth hwyluso sesiynau
- defnyddio amrywiaeth o ddulliau cyfathrebu gwahanol, sy'n hybu rhyngweithio yn ystod y sesiwn

6.16 Gweithio gydag eraill i fonitro, gwerthuso a myfyrio ar yr hyn a gyflwynwyd ar ddiwedd pob sesiwn ac addasu'r sesiwn yn unol â hynny
6.17 Cyfrannu at y gwaith o fonitro a gwerthuso effaith cefnogaeth rhianta gan ddefnyddio adnoddau priodol
6.18 Gwerthuso'r rhaglenni a gyflwynir gennych

### Amrediad

**Cefnogaeth rhianta:** un i un ac mewn grŵp

---

### Deilliant dysgu:

7. Cymhwyso protocolau rhannu gwybodaeth wrth weithio gyda theuluoedd/gofalwyr

### Meini prawf asesu

Rydych chi'n deall:
7.1 Canfyddiadau amrywiaeth o ymchwil ac adroddiadau sy'n sail i arfer da o ran rhannu gwybodaeth
7.2 Protocolau cydweithio a rhannu gwybodaeth a ddylai fod ar waith wrth weithio gyda gweithwyr proffesiynol a gwasanaethau eraill
7.3 Pwysigrwydd hysbysu teuluoedd/gofalwyr o adegau pan ellir rhannu eu gwybodaeth heb eu cydsyniad

7.4 Pam, sut a phryd y dylid atgyfeirio achosion at weithwyr proffesiynol neu wasanaethau eraill
7.5 Sut i adnabod pa wybodaeth sy'n berthnasol wrth ei rhannu â gweithwyr proffesiynol allweddol
7.6 Pwysigrwydd rhannu gwybodaeth berthnasol ag asiantaethau priodol
7.7 Y gofyniad i gael cydsyniad teuluoedd/gofalwyr i rannu gwybodaeth ac atgyfeirio achos at asiantaethau eraill, lle nad oes unrhyw bryderon diogelu
7.8 Yr amrywiaeth o fforymau lle y gall fod angen rhannu gwybodaeth am deuluoedd, a'u pwrpas
7.9 Adegau pan fydd modd rhannu gwybodaeth heb gydsyniad teuluoedd/gofalwyr
7.10 Pwysigrwydd trafod â theuluoedd/gofalwyr pa wybodaeth a gaiff ei rhannu ag asiantaethau eraill heb eu cydsyniad ymlaen llaw
7.11 Fformat a phwrpas gwybodaeth a sut y dylid cyflwyno hyn
7.12 Sut y gall dewis geiriau effeithio ar deuluoedd/gofalwyr a'r canfyddiadau ohonynt
7.13 Y gwahanol adroddiadau y gall fod angen eu cyflwyno'n bersonol **mewn amrywiaeth o leoliadau**

Rydych chi'n gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:
7.14 Ennyn ymddiriedaeth a hyder gydag eraill yn cydnabod eich rolau, eich cyfrifoldebau, eich atebolrwydd a'ch arbenigedd eich hun a rhai pobl eraill
7.15 Cadw at brotocolau cydweithio a rhannu gwybodaeth
7.16 Sicrhau bod eich cofnodion a'ch adroddiadau eich hun:
- yn gywir
- wedi'u dyddio a'u llofnodi
- yn wrthrychol
- yn gallu gwahaniaethu rhwng ffaith a barn
- yn gallu gwahaniaethu rhwng yr hyn yr arsylwyd arno a'r hyn a gofnodwyd
- yn ddealladwy
- yn ddarllenadwy
- yn hygyrch
- yn parchu ac yn adlewyrchu barn teuluoedd
- wedi'u cyflwyno i'r rhai y mae angen iddynt wneud penderfyniadau neu weithredu
- yn cael eu storio, eu rhannu a'u cadw yn unol â pholisïau'r sefydliad, gofynion cyfreithiol a diogelu data

## Amrediad

**Mewn amrywiaeth o leoliadau** – mae'n cynnwys cynadleddau achosion, y llys, adolygiadau ymarfer plant

# Uned 416 Gweithio gyda theuluoedd a gofalwyr i ddatblygu sgiliau rhianta

## Gwybodaeth Ategol

### *Canllawiau cyflwyno*

Gallai **anghenion ychwanegol** gynnwys y canlynol, ond nid ydynt wedi'u cyfyngu iddynt:

- Anabledd corfforol
- Anabledd dysgu
- Awtistiaeth
- Anghenion iechyd ychwanegol
- Colli synhwyrau
- Anawsterau emosiynol ac ymddygiadol
- Mwy abl a thalentog
- Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd
- Ymlyniadau ansicr
- Angen ymddygiadol
- Anghenion cymdeithasol ychwanegol
    - Rhieni mabwysiadol
    - Ceiswyr lloches
    - Rhieni ag anabledd
    - Rhieni o leiafrif ethnig
    - Teuluoedd sy'n wynebu cam-drin domestig
    - Rhieni ifanc
    - Teuluoedd sy'n wynebu tlodi
    - Teuluoedd ag un rhiant yn y carchar
    - Rhieni maeth gan gynnwys gofalwyr sy'n berthynas
    - Salwch meddwl
    - Rhieni nad ydynt yn byw gyda'u plant
    - Plentyn/plant ag anabledd
    - Gofalwyr ifanc
    - Ddim ar gael yn emosiynol

**Dulliau ac ymyriadau seiliedig ar dystiolaeth.** Mae'r rhain yn cynnwys:
Rhaglenni rhianta a rhaglenni Ymyriadau Byr ar gyfer:

- Rheoli cwsg a chysgu'n fwy diogel
- Datblygiad Lleferydd,
- Bwydo ymatebol (bwydo ar y fron a bwydo â photel)
- Diddyfnu (Mesuriadau twf)
- Arferion bwyta ffyslyd/dewisol
- Cyffwrdd cadarnhaol
- Ymddygiad
- Newidiadau i ffyrdd o fyw

- Hybu Iechyd/Ymyriadau Byr (Syndrom Marwolaeth Sydyn Babanod, ymarfer corff, alcohol, smygu, gordewdra, camddefnyddio sylweddau, diogelwch ac atal damweiniau, a hylendid y geg)
- Asesiadau Iechyd y Geg i bob plentyn o dan dair oed
- Rhianta Cadarnhaol
- Cyfweliadau Cymhellol

**Manteision ymyriadau byr a rhaglenni rhianta:** dylid nodi bod y rhaglenni hyn yn cael effeithiau cadarnhaol i'r teuluoedd/gofalwyr sy'n mynychu'r rhaglen hefyd, yn enwedig yn eu meysydd megis hyder, hunan-barch a llesiant corfforol a meddyliol

**Anfantais yn ystod plentyndod:** plant sy'n ddifreintiedig ac sydd wedi'u hamddifadu o safon byw weddol dda ac ysgogiad ac amgylchedd priodol, heb fynediad at addysg na gwasanaethau gan gynnwys gofal iechyd, o ganlyniad i dlodi a diffyg cyfle. Dangoswyd bod cysylltiad rhwng anfantais yn ystod plentyndod ag ymddygiad sy'n niweidiol i iechyd, ymddygiad gwrthgymdeithasol, cyrhaeddiad addysgol gwael, straen a chwalfa deuluol yn ddiweddarach mewn bywyd

**Amgylchiadau a materion cyfoes a all effeithio ar deuluoedd:** gallai'r rhain gynnwys y canlynol, ond nid ydynt wedi'u cyfyngu iddynt:

- y pwysau emosiynol, cymdeithasol ac amgylcheddol gwahanol y maent yn eu hwynebu o bosibl
- pam eu bod yn cael anawsterau gydag agweddau ar rianta cadarnhaol
- sut gallant adeiladu ar eu profiad, eu harbenigedd a'u galluoedd ar gyfer gofalu am eu plant
- cysylltiadau rhwng profiad y rhieni eu hunain yn ystod plentyndod a'u disgwyliadau ar gyfer eu plant
- cefnogaeth y maent yn ei chael gan aelodau o'r teulu ehangach, ffrindiau a rhwydweithiau rhianta o bosibl
- rhwystrau i newid
- sut maent yn teimlo am yr angen i ofyn am gefnogaeth
- Diwylliant
- Dwyieithrwydd
  Brechu
- Bwydo ymatebol
- Salwch corfforol neu salwch meddwl
- Smygu
- Anabledd
- Anghenion sy'n gysylltiedig ag oedran
- Dibyniaeth ar alcohol neu gyffuriau
- Heriau o fewn teuluoedd, chwalfa deuluol, neu berthnasoedd personol pwysig eraill
- Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod
- Anfantais yn ystod Plentyndod
- Ffoaduriaid
- Gofalwyr ifanc

Mae **ymyrraeth gynnar** yn cyfeirio at y canlynol: darpariaeth ataliol gyffredinol (megis gofal iechyd ac addysg gynnar gyffredinol) i deuluoedd â phlant yn ystod y cyfnodau cynnar yn eu bywyd; darpariaeth wedi'i thargedu'n gynnar a chyn gynted â phosibl pan fydd plentyn neu berson ifanc a/neu'r teulu yn dechrau cael anawsterau neu ddangos ymddygiad problemus; a rhaglenni neu fentrau wedi'u targedu a ddarperir ar gyfer plant/pobl ifanc, teuluoedd neu grwpiau neu gymunedau penodol sydd â nodweddion sydd, yn ôl y dystiolaeth, yn eu gwneud yn fwy tebygol o wynebu mwy o risg o ganlyniadau gwael.

Mae **cryfderau presennol a ffactorau amddiffynnol** yn cyfeirio at y gydnabyddiaeth o ffactorau cadarnhaol sydd eisoes yn bodoli o fewn teuluoedd, er enghraifft, cefnogaeth dda gan y teulu estynedig, bodolaeth un ffigwr sy'n cynnig ymlyniad cadarnhaol i'r plentyn.

**Teuluoedd/gofalwyr: rhieni,** gofalwyr, plant a/neu deuluoedd ag anghenion gofal a chymorth ychwanegol (gall gofalwyr fod yn unigolion eraill o fewn y teulu, nid dim ond rhieni, e.e. neiniau a theidiau, brodyr a chwiorydd).

**Dull cynhwysol:** mae'r teulu yn bartner cyfartal yn y broses

**Protocolau rhannu gwybodaeth:** mae'r rhain yn cynnwys y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) gan ei fod yn ymwneud â'r Ddyletswydd Gyhoeddus i rannu data, Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (WASPI) a chanllawiau Caldicott

**Gweithwyr proffesiynol allweddol:** iechyd, asiantaethau tai, Awdurdod Lleol, addysg, gwasanaethau cyfiawnder (e.e. yr Heddlu, Tîm Troseddwyr Ifanc, gwasanaethau prawf) sefydliadau yn y trydydd sector (e.e. Gweithredu dros Blant, Cyngor ar Bopeth, NSPCC, Barnardos, Cymorth i Fenywod, CAIS, Shelter Cymru), Cynghorwyr ar Fudd-daliadau, Eiriolwyr Teuluol, Gweithwyr Gofal Plant

**Eraill:** teuluoedd/gofalwyr, gweithwyr proffesiynol eraill

**Rhianta**: Gweithgaredd a gyflawnir gan y rhai sy'n magu plant yw rhianta, ac mae'n cynnwys mamau, tadau, gofalwyr maeth, rhieni mabwysiadol, llys-rieni, gofalwyr sy'n berthnasau a neiniau a theidiau.

**Cefnogaeth Rhianta**: Gwasanaethau a chefnogaeth a ddarperir gyda'r nod o:
wella sgiliau rhianta; gwella perthnasoedd rhwng rhieni a'u plant; gwella dealltwriaeth, agweddau ac ymddygiad rhieni a gwella hyder rhieni i hybu llesiant cymdeithasol, corfforol ac emosiynol plant. Mae hyn yn cynnwys pwysigrwydd modelau rôl cadarnhaol a theori dysgu cymdeithasol yn natblygiad llesiant emosiynol plant

**Heriau penodol sy'n gysylltiedig â rhannu gwybodaeth:** GDPR a hawl y teulu i breifatrwydd, yn erbyn yr angen i rannu gwybodaeth.

**Rhianta Cadarnhaol**: Mae'n cyfeirio at ymddygiad gan rieni sydd er budd pennaf y plentyn, yn feithringar ac yn grymuso, nad yw'n dreisgar ac sy'n cydnabod ac yn arwain gan bennu ffiniau er mwyn galluogi'r plentyn i ddatblygu'n llawn.

**Rhaglenni rhianta cadarnhaol.** Gallai'r rhain gynnwys:

- Triple ‘P’
- Webster Stratton, Incredible Years
- Strengthening Families / Strengthening Communities.

**Effeithiau posibl pan na chaiff anghenion eu diwallu:** gall y rhain fod ar y teulu/gofalwr/plentyn/gweithiwr, a byddent yn cynnwys effaith loci rheolaeth fewnol ac allanol.

**Amrywiaeth o fframweithiau cenedlaethol:** Cyfeiria at ganllawiau yn Atodiad C, tudalen 132 o **https://gweddill.gov.wales/docs/dsjlg/publications/cyp/170519-parenting-in-wales-guidance-cy.pdf**

**Gwydnwch:** mae'n cyfeirio at ba mor dda y gall unigolyn "ddod yn ei ôl" yn dilyn profiadau trawmatig niweidiol, anfantais gymdeithasol neu ffynonellau sylweddol o straen. Mae ymchwil i wydnwch yn tynnu sylw at y ffactorau a fydd yn peri risg o ganlyniadau gwael i blant neu a fydd yn eu hamddiffyn. Ymhlith y ffactorau risg mae magwraeth y rhieni, disgyblaeth lem ac anghyson gan y rhieni; a gwrthdaro/trais. Ymhlith y ffactorau amddiffynnol mae perthnasoedd cadarnhaol rhwng rhieni a'u plant a rhwydwaith ehangach o gefnogaeth gymdeithasol.

**Dull seiliedig ar gryfderau**: Ceir dull sy'n seiliedig ar gryfderau pan fydd gweithwyr allweddol yn rhoi pwyslais cadarnhaol ar wydnwch, ffactorau amddiffynnol a chryfderau. Mae hyn yn arwain at gyfleu ymdeimlad o obaith; pennu disgwyliadau ar gyfer llwyddiant sydd o fewn galluoedd unigolyn; hybu grymuso ac annibyniaeth a rhoi mesurau ar waith er mwyn sicrhau gwelliant.

**Gwasanaethau cefnogi:** Y mathau a lefelau gwahanol o raglenni iechyd ac ymyrraeth i blant, boed nhw wedi'u targedu (Dechrau'n Deg) neu'n rhai cyffredinol – ymweld â'r cartref (ymwelydd iechyd, gweithiwr cefnogi teuluoedd), asesiad teulu (gwasanaethau i deuluoedd, ‘Tîm o Amgylch y Plentyn/Teulu’), deietegydd cymunedol a chynllun cyn-ysgol iach a chynaliadwy, gwasanaethau mynediad agored yn y gymuned (grwpiau rhieni a phlant bach, amser stori, clybiau llyfrau, Dechrau Da, grwpiau chwaraeon/hamdden). Gall y gwasanaethau hyn fod yn ffurfiol neu'n anffurfiol.

**Teuluoedd agored i niwed**: Mae hyn yn cyfeirio at deuluoedd sy'n wynebu risg o ddatblygu anawsterau wrth fagu plant neu'r rhai sy'n wynebu risg o fethu ag amddiffyn a gofalu am eu plant yn ddigonol. Gall teuluoedd wynebu mwy o risg oherwydd amgylchiadau niweidiol megis tlodi, diweithdra, profedigaeth, alcohol neu gamddefnyddio sylweddau, problemau iechyd meddwl neu iechyd corfforol; cam-drin domestig neu ddiffyg rhwydwaith cefnogi. Mae hefyd yn cyfeirio at deuluoedd y mae eu statws lleiafrifol neu eu sefyllfa yn eu gwneud yn agored i wahaniaethu neu ynysigrwydd (er enghraifft, teuluoedd o leiafrifoedd ethnig, ffoaduriaid neu geiswyr lloches, teuluoedd un rhiant neu rieni ifanc).

## *Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol cysylltiedig*

- **SCDCCLD 0313:** Cefnogi ymyrraeth gynnar er budd plant a theuluoedd
- **SCDCCLD 0319:** Hybu byw'n iach i blant a theuluoedd
- **SCDCCLD 0322:** Grymuso teuluoedd drwy feithrin sgiliau rhianta
- **SCDHSC 0319:** Cefnogi teuluoedd plant a phobl ifanc yn eu cartrefi eu hunain
- **SCDHSC 0047:** Helpu rhieni a gofalwyr i ddysgu sgiliau er mwyn gofalu am fabanod, plant a phobl ifanc a'u diogelu

- **WWP01:** Ymgysylltu â rhieni er mwyn meithrin a chynnal perthnasoedd effeithiol a chefnogol sy'n grymuso.
- **WWP09:** Gweithredu o fewn ffiniau polisi, cyfreithiol, moesegol a phroffesiynol wrth weithio gyda theuluoedd.

## *Deddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig*

- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2016
- Canllawiau ar Gymorth Rhianta Dechrau'n Deg **https://gov.wales/docs/dsjlg/publications/cyp/170519-parenting-guidance-cy.pdf**
- Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol Gwaith gyda Rhieni **https://app.pelorous.com/media_manager/public/115/publications/Qualifications/work-with-parents-nos-jan-2011.pdf**
- Barnardo's – Promoting Resilience: A Review of Effective Strategies for Child Care Services, Dr. Tony Newman, Ymchwil a Datblygu Barnardo's, 2002 **http://www.barnardos.org.uk/resilsum.pdf**
- Research into Practice Building emotional resilience in the children and families workforce – an evidence-informed approach: Strategic Briefing (2016) gan Gail Kinman a Louise Grant **https://www.rip.org.uk/resources/publications/strategic-briefings/building-emotional-resilience-in-the-children-and-families-workforce--an-evidenceinformed-approach-strategic-briefing-2016**
- Parenting and resilience, Malcolm Hill, Anne Stafford, Peter Seaman, Nicola Ross a Brigid Daniel, Sefydliad Joseph Rowntree, 2007, **https://www.jrf.org.uk/sites/default/files/jrf/migrated/files/parenting-resilience-children.pdf**
- Ymgyrch Mae Addysg yn Dechrau yn y Cartref Llywodraeth Cymru **https://gov.wales/topics/educationandskills/schoolshome/parents/education-begins-at-home/?skip=1&lang=cy**
- Rhianta yng Nghymru: Canllawiau ar Ymgysylltiad a Chymorth, 2014 **https://gov.wales/docs/dsjlg/publications/cyp/140910-parenting-in-wales-guidance-cy.pdf**
- Adroddiad Ymchwiliad Bichard (2004) **http://dera.ioe.ac.uk/6394/1/report.pdf**
- Amddifadedd chwarae (2003) **https://www.chwaraecymru.org.uk/login/uploaded/documents/INFORMATION%20SHEETS/amddifadiad%20chwarae.pdf**
- Chwarae: iechyd a lles (2012) **https://www.chwaraecymru.org.uk/login/uploaded/documents/INFORMATION%20SHEETS/chwarae%20iechyd%20a%20lles.pdf**
- Arfer myfyriol – beth ydi o a pham ei fod mor bwysig? (2018) **https://issuu.com/playwales/docs/arfer_myfyriol**
- Defnydd ymarferol o ddyfeisiau digidol mewn lleoliadau chwarae (2018) **http://www.chwaraecymru.org.uk/login/uploaded/documents/INFORMATION%20SHEETS/Defnydd%20ymarferol%20o%20ddyfeisiau%20digidol%20mewn%20lleoliadau%20chwarae.pdf**
- Cynllun Gweithlu Gofal Plant, Chwarae a Blynyddoedd Cynnar Rhagfyr 2017. Llywodraeth Cymru **https://gweddill.gov.wales/docs/cabinetstatements/2017/171215%20HID%20Childcare%20Play%20and%20Early%20Years%20Workforce%20Plan%20-%20Cymraeg.pdf**
- Gofal plant i blant 3 a 4 oed (Y cynnig 30 awr) **https://llyw.cymru/gofal-plant-i-blant-3-4-oed**
- Safonau'r Gymraeg 2018 **http://www.legislation.gov.uk/wsi/2018/441/made/welsh**

- Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data **https://www.gov.uk/government/publications/guide-to-the-general-data-protection-regulation**,
- Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (WASPI 2018) **http://www.waspi.org/hafan**
- Egwyddorion Calldicott (2013) **https://www.igt.hscic.gov.uk/Caldicott2Principles.aspx**
- Adroddiadau ar Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod – **http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/888/tudalen/88518**
- Bwrdd Diogelu Cymru Gyfan **http://bwrdddiogelu.cymru/practice-reviews/**
- Adolygiadau o Ymarfer Plant **http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/888/tudalen/93470**
- Adolygiadau Thematig Byrddau Lleol Diogelu Plant
    - Gogledd Cymru **https://www.bwrdddiogelugogleddcymru.cymru/adolygiadau-ymarfer/adolygiadau-ymarfer-plant/**
    - Caerdydd a Bro Morgannwg **https://www.cardiffandvalersb.co.uk/children/professionals-and-employers/child-practice-reviews/**

## Uned 417 Gweithio gyda Phlant ag Anghenion Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu

| | |
|---|---|
| **Lefel:** | 4 |
| **ODA:** | 170 |
| **Credyd:** | 34 |
| **Crynodeb o'r Uned:** | Nod yr uned hon yw galluogi dysgwyr i feithrin y wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i gynghori cydweithwyr yn effeithiol a'u helpu i adnabod plant ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu a gweithio gyda nhw. Bydd dysgwyr yn arwain y gwaith o ddatblygu amgylchedd cyfathrebu cadarnhaol, ac yn ymgysylltu â theuluoedd/gofalwyr er mwyn cefnogi datblygiad plant ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu. |

Deilliant dysgu:

1. Deall datblygiad Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu

Meini prawf asesu

Rydych chi'n deall:

1.1 Ystyr y term anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu (SLCN)
1.2 Camau nodweddiadol datblygiad lleferydd, iaith a chyfathrebu, gan gynnwys y gwahaniaethau normal a all ddigwydd rhwng plant
1.3 Y rhesymau pam na fydd rhai plant yn dilyn patrymau arferol o ran datblygiad lleferydd, iaith a chyfathrebu
1.4 Y ffactorau a all effeithio ar ddatblygiad lleferydd, iaith a chyfathrebu plant
1.5 Mae cyfathrebu yn digwydd ar **ffurf eiriol a dieiriau**
1.6 Mynychder anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu a'r goblygiadau o ran ymarfer
1.7 Y gwahaniaeth rhwng iaith oddefol ac iaith fynegiannol

Rydych chi'n gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

1.8 **Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith** sy'n sicrhau bod mynychder anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu yn cael eu hystyried mewn ymarfer

**Amrediad**

**geiriol a dieiriau**: i gynnwys ymddygiadau cadarnhaol a negyddol fel math o gyfathrebu

**Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith** yn unol â chyd-destunau deddfwriaethol, rheoliadol a sefydliadol

Deilliant dysgu:

2. Gwerthuso'r ffyrdd y mae theori ac ymchwil gyfredol wedi dylanwadu ar bolisi ac ymarfer mewn perthynas â Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu

Meini prawf asesu

Rydych chi'n deall:

2.1 Y prif ddamcaniaethau o ran sut mae iaith yn cael ei chaffael
2.2 Sut mae ymchwil gyfredol wedi llywio polisïau neu ganllawiau'r llywodraeth o ran sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu
2.3 Sut mae'r prif ddamcaniaethau o ran caffael iaith yn dylanwadu ar yr ymarfer a ddefnyddir i gefnogi datblygiad lleferydd, iaith a chyfathrebu yn eich lleoliad
2.4 Damcaniaethau ac ymarfer cyfredol ar y cysylltiad rhwng iaith a datblygiad llythrennedd
2.5 Effaith fframweithiau, gweithdrefnau neu fentrau lleol sy'n ymwneud â lleferydd, iaith a chyfathrebu ar eich rôl a'ch lleoliad

Rydych chi'n gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

2.6 Gwerthuso'r berthynas rhwng y dulliau o weithio yn eich lleoliad a'r prif ddamcaniaethau o ran sut mae iaith yn cael ei chaffael
2.7 Gwneud argymhellion os oes angen unrhyw newidiadau i gefnogi'r dulliau o weithio

---

Deilliant dysgu:

3. Deall yr amrywiaeth o anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu y gall plant eu profi a'u goblygiadau i ddatblygiad cyfannol

Meini prawf asesu

Rydych chi'n deall:

3.1 sgrinio cychwynnol a pharhaus datblygiad lleferydd, iaith a chyfathrebu plant
3.2 Yr amrywiaeth o anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu y gall plant eu profi
3.3 Y gwahaniaeth rhwng anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu tymor byr/dros dro a rhai parhaus
3.4 Yr amrywiaeth o ffactorau a all gynyddu'r risg y bydd gan blentyn anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu parhaus
3.5 Y termau anhwylder datblygu iaith, ac anhwylderau datblygu iaith sy'n gysylltiedig ag anableddau eraill/cysylltiedig.
3.6 Y rhyngweithio rhwng anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu a datblygiad gwybyddol, cymdeithasol ac emosiynol plentyn
3.7 Gweithgareddau a strategaethau a all gefnogi datblygiad cymdeithasol ac emosiynol plant ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu

---

Deilliant dysgu:

4. Arwain ymarfer sy'n cefnogi'r broses o adnabod, cydnabod a chefnogi plant ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu

Meini prawf asesu

Rydych chi'n deall:

4.1 Amrywiaeth o ddulliau asesu ac arsylwi priodol y gellir eu defnyddio i gefnogi'r broses o adnabod anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu ar gam cynnar a rhoi ymyriadau ar waith
4.2 Effeithiau labelu a stereoteipio plant ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu a sut i herio hyn yn y gweithle/lleoliad
4.3 Gwerth a phwysigrwydd ymarfer cynhwysol wrth weithio gyda phlant
4.4 Rolau a chyfrifoldebau'r Therapydd Lleferydd ac Iaith
4.5 Eich rôl a'ch cyfrifoldebau o ran lleferydd, iaith a chyfathrebu yn eich lleoliad
4.6 Pwysigrwydd cydweithio ag **eraill** i gefnogi plant a'u teuluoedd/gofalwyr
4.7 Y rhwydweithiau y gall plant a'u teuluoedd/gofalwyr eu defnyddio i gael cefnogaeth
4.8 Y **llwybr neu'r weithdrefn atgyfeirio** leol i blant ag arwyddion o anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu

Rydych chi'n gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

4.9 Cefnogi eraill i ddeall yr amrywiaeth o anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu a all fod gan blant yn eich lleoliad
4.10 Defnyddio arsylwadau ac asesiadau i adnabod a monitro plant a all fod ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu ac yn cymryd camau gweithredu priodol
4.11 Cydweithio ag **eraill** i adnabod cefnogaeth briodol y gall fod ei hangen
4.12 Sicrhau bod cofnodion cywir yn cael eu cadw a bod gwybodaeth yn cael ei rhannu ar gyfer plant ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu yn eich lleoliad
4.13 Cynllunio, yn gweithredu ac yn gwerthuso gweithgareddau a strategaethau sy'n cefnogi datblygiad cymdeithasol ac emosiynol plant ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu
4.14 Myfyrio ar y ffordd y mae eich credoau, eich gwerthoedd a'ch sgiliau eich hun yn dylanwadu ar eich ymarfer a herio hynny
4.15 Cefnogi eraill i fyfyrio ar y ffordd y mae eu credoau, eu gwerthoedd a'u sgiliau eu hunain yn dylanwadu ar eu hymarfer a herio hynny
4.16 Dilyn polisi a gweithdrefnau'r gweithle/lleoliad ar gyfer nodi ac atgyfeirio plant

**Amrediad**

**Llwybr/gweithdrefn atgyfeirio** – dylai hyn gynnwys y ffurflenni atgyfeirio, asesiadau i gefnogi'r atgyfeiriad, i ble neu at bwy y dylid anfon y wybodaeth hon.

**Eraill:** plant, teuluoedd/gofalwyr, Therapyddion Lleferydd ac Iaith, gweithwyr iechyd proffesiynol, cydweithwyr

---

Deilliant dysgu:

5. Arwain y gwaith o ddatblygu amgylchedd cyfathrebu cadarnhaol yn eich gweithle/lleoliad

Meini prawf asesu

Rydych chi'n deall:

5.1 Nodweddion amgylchedd cyfathrebu cadarnhaol a sut y gellir ei greu yn eich gweithle/lleoliad

Rydych chi'n gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

5.2 Asesu'r amgylchedd cyfathrebu cadarnhaol a'r rhyngweithio rhwng oedolion a phlant yn eich lleoliad

5.3 Arwain y gwaith o ddatblygu amgylchedd cyfathrebu cadarnhaol yn eich lleoliad

---

Deilliant dysgu:

6. Cyfrannu at y gwaith o gynllunio a gwerthuso strategaethau ac ymyriadau sy'n cefnogi plant ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu yn eich gweithle/lleoliad

Meini prawf asesu

Rydych chi'n deall:

6.1 Rôl gwahanol asiantaethau ac eraill o ran datblygu strategaethau ac ymyriadau i gefnogi plant ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu

Rydych chi'n gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

6.2 Cyfrannu at roi strategaethau/ymyriadau priodol ar waith i gefnogi plant ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu yn eich gweithle/lleoliad

6.3 Gwerthuso effaith strategaethau/ymyriadau a ddefnyddir i gefnogi plant ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu yn eich lleoliad

6.4 Cefnogi eraill i addasu eu hymarfer er mwyn sicrhau bod anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu plant yn cael eu diwallu

6.5 Cyfeirio teuluoedd/gofalwyr at rwydweithiau y gall plant a'u teuluoedd/gofalwyr eu defnyddio i gael cefnogaeth

---

Deilliant dysgu:

7. Y cysylltiadau rhwng dwyieithrwydd/amlieithrwydd a datblygiad sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu

Meini prawf asesu

Rydych chi'n deall

7.1 Manteision dwyieithrwydd/amlieithrwydd mewn perthynas â datblygiad lleferydd, iaith a chyfathrebu.

7.2 Y rhyngweithio rhwng sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu a dwyieithrwydd / amlieithrwydd

7.3 Y termau:
- Dwyieithrwydd cydamserol
- Dwyieithrwydd olynol

7.4 Y gwahaniaeth rhwng trochi ieithyddol a dod i gysylltiad ag iaith ychwanegol yn y lleoliad

7.5 Pwysigrwydd adnabod a oes gan blentyn anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu yn ei brif iaith

7.6 Yr **effaith bosibl** os bydd prif iaith y plentyn yn wahanol i'r iaith a ddefnyddir yn y gweithle/lleoliad gofal plant

7.7 Ble i gael gafael ar ffynonellau gwybodaeth a chefnogaeth sydd ar gael i helpu plant ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu i ddysgu iaith ychwanegol.

7.8 Effeithiau labelu a stereoteipio o ran dwyieithrwydd/amlieithrwydd ar blant ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu a sut i herio hyn yn y gweithle/lleoliad

**Amrediad**

**Effaith bosibl**, i gynnwys bod diffyg dealltwriaeth a defnydd o eirfa yn yr iaith ychwanegol o ganlyniad i ddiffyg cysylltiad ag iaith yn y gweithle/lleoliad, yn hytrach nag anhawster i brosesu lleferydd ac iaith.

---

Deilliant dysgu:

8. Arwain ac yn hybu'r gwaith o gefnogi plant sy'n dysgu iaith y gweithle/lleoliad fel iaith ychwanegol

Meini prawf asesu

Rydych chi'n gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

8.1 Arwain ac yn hybu'r gwaith o roi strategaethau ar waith sy'n cefnogi plant sy'n dysgu iaith eich gweithle/lleoliad

8.2 **Cynllunio'r** gefnogaeth y bydd plentyn sy'n dysgu iaith eich gweithle/lleoliad a'i deulu yn ei chael

8.3 Cael mynediad at ffynonellau gwybodaeth a chefnogaeth i blant ddysgu iaith y lleoliad a'u rhannu

8.4 Cefnogi cydweithwyr sy'n gweithio gyda phlant ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu sydd hefyd yn dysgu iaith y gweithle/lleoliad

**Amrediad**

**Cynllunio:** Y strategaethau dysgu/datblygu a gaiff eu defnyddio (pa adnoddau, patrymau ailadrodd, mathau o weithgareddau), cynnwys eraill (teuluoedd/gofalwyr), mathau o eirfa yr ymdrinnir â nhw, ac ati.

---

Deilliant dysgu:

9. Pwysigrwydd addasu ymarfer yn seiliedig ar fyfyrio wrth weithio gyda phlant ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu

Meini prawf asesu

Rydych chi'n deall:

9.1 Modelau o ymarfer myfyriol y gellir eu defnyddio i gefnogi eraill yn eich gweithle/lleoliad

9.2 Pwrpas a phwysigrwydd myfyrio ar eich ymarfer eich hun ac ymarfer eraill wrth weithio gyda phlant

9.3 Yr angen i addasu eich ymarfer eich hun yn seiliedig ar fyfyrio a goblygiadau peidio â gwneud hynny

9.4 Effaith bosibl peidio â defnyddio ymarfer myfyriol ar ansawdd y gofal a'r gefnogaeth a roddir i blant

Rydych chi'n gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

9.5 Defnyddio modelau myfyrio i werthuso eich ymarfer eich hun

9.6 Addasu eich ymarfer yn seiliedig ar fyfyrio a gwneud argymhellion i wella canlyniadau plentyn

## Uned 417 Gweithio gyda Phlant ag Anghenion Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu

Gwybodaeth Ategol

### *Gofynion tystiolaeth*

Bydd y dystiolaeth ar gyfer yr uned hon yn cael ei chyflwyno drwy'r tasgau strwythuredig. Mae canllawiau ar gyfer unrhyw dystiolaeth ychwanegol y gall fod ei hangen i'w gweld yn y pecyn asesu.

Bydd angen i'r uned hon gael ei hasesu gan unigolion sy'n meddu ar lefelau uchel o gymhwysedd galwedigaethol a phrofiad diweddar o gefnogi plant ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu.

### *Canllawiau cyflwyno*

**Oedi ac Anhwylder ac Iaith Oddefol a Mynegiannol**
**https://www.afasic.org.uk/about-talking/more-about-speech-language-and-communication/**
***Oedi ac anhwylder***

Mae oedi cyn deall a siarad yn golygu bod plentyn yn datblygu'r sgiliau hyn ar gyfradd arafach ond yn y drefn ddisgwyliedig ac yn unol â phatrwm arferol.

Defnyddir anhwylder pan fydd sgiliau gwrando, deall a siarad plentyn yn datblygu mewn ffordd annisgwyl, yn wahanol i blant eraill ac nad yw'n dilyn patrwm arferol.

Er y gall y gwahaniaethau hyn ymddangos yn eglur, yn ymarferol, er enghraifft gyda phlant bach, gall fod yn anodd i weithwyr proffesiynol eu hadnabod ac efallai y bydd plentyn yn dangos elfennau o oedi ac anhwylder. Gellir defnyddio nifer o labeli i ddisgrifio anghenion eich plentyn felly mae'n bwysig gofyn beth mae gweithiwr proffesiynol yn ei olygu pan awgrymir label penodol.

***Iaith oddefol a mynegiannol***

Defnyddir y termau hyn gan weithwyr proffesiynol i ddisgrifio sgiliau gwrando, deall a mynegi (drwy siarad neu drwy ffyrdd eraill megis defnyddio iaith arwyddion).

Ystyr iaith oddefol yw'r gallu i ddeall gwybodaeth. Mae'n cynnwys deall y geiriau, y brawddegau ac ystyr yr hyn y mae eraill yn ei ddweud neu'r hyn sy'n cael ei ddarllen.

Ystyr iaith fynegiannol yw'r gallu i fynegi meddyliau ar ffurf geiriau a brawddegau, mewn ffordd sy'n gwneud synnwyr ac sy'n ramadegol gywir. Mae iaith fynegiannol hefyd yn llywio'r ffordd y mae unigolyn yn ysgrifennu.

**Ffactorau a all effeithio ar ddatblygiad lleferydd, iaith a chyfathrebu plant** Mae cyfathrebu yn sgìl hanfodol am oes ac mae'n faes allweddol ar gyfer datblygiad dysgu. Mae'r amgylchedd ieithyddol y mae plant yn dod i gysylltiad ag ef yn dylanwadu'n fawr ar ddatblygiad lleferydd, iaith a chyfathrebu. Gall amgylcheddau ieithyddol gwael arwain at oedi cyn datblygu sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu.

Ymhlith y ffactorau i'w hystyried mae: manteision cadarnhaol amlieithrwydd, amgylchedd cyfathrebu cadarnhaol, rhyngweithio rhwng oedolion a phlant (gemau cymryd eich tro, cyfathrebu ymatebol, proto-sgyrsiau, ciwiau geiriol a dieiriau, cyswllt llygaid, mynegiannau'r wyneb), argaeledd profiadau darllen ar y cyd, ffactorau corfforol (gwefus a thaflod hollt, defnyddio dymïau, nam ar y clyw), nam gwybyddol, Anhwylderau ar y Sbectrwm Awtistig, amddifadedd cymdeithasol, profiadau niweidiol yn ystod plentyndod.

**Prif ddamcaniaethau** – i gynnwys Cynhenidiaeth (Chomsky), Theori Wybyddol (Piaget), Rhyngweithiadol (Bruner), Damcaniaeth Ymddygiad/Gwobrwyo (Skinner) Seico-ieithyddol (Stackhouse a Wells)

**Amgylcheddau cyfathrebu cadarnhaol:**

Gellir rhannu amgylcheddau cyfathrebu cadarnhaol yn dri maes allweddol:

1. Dylai'r *amgylchedd dysgu iaith* ystyried y canlynol:
   - Gofod, golau a chynllun: A oes lleoedd clyd, cyfforddus i siarad? A allwch weld wynebau pobl pan fyddant yn siarad? A allwch ad-drefnu cynllun yr ystafell i fod yn addas ar gyfer cyfleoedd gwahanol i siarad – mewn parau, neu mewn grwpiau bach neu fawr?
   - Lefelau sŵn: Beth yw lefel gyffredinol y sŵn? A oes pethau swnllyd y tu mewn neu'r tu allan a allai dynnu sylw? A oes modd cael sylw pobl? A all pawb glywed a chael ei glywed? A oes cyfnodau tawel?
   - Defnyddio cefnogaeth weledol: Mae arwyddion, symbolau, ffotograffau ac weithiau ysgrifennu yn nodweddion ar amgylchedd cyfathrebu cadarnhaol. Pa mor eang a chyson y cânt eu defnyddio? A gânt eu defnyddio fel labeli, i gefnogi arferion beunyddiol, neu fel amserlenni? A ddangosir sut maent yn gweithio i rieni? A ddefnyddir y maint cywir a'r math cywir o gefnogaeth weledol ar gyfer oedran a datblygiad y plant?
   - Arferion beunyddiol clir a chyson: Sut mae amgylchedd y lleoliad yn helpu plant i wybod beth i'w ddisgwyl a phryd? Pa mor dda y caiff cymhorthion gweledol eu defnyddio i helpu plant i ddeall a dilyn arferion?

2. Dylai *Rhyngweithiadau Dysgu Iaith* ystyried y canlynol:
   - Rôl oedolion yn y lleoliad: Mae'r ffyrdd y mae oedolion yn gwrando ar blant ac yn siarad â nhw yn hanfodol. Mae hyn yn cynnwys modelu iaith, cefnogi plant i ofyn cwestiynau, estyn ac ymhelaethu ar yr hyn y mae plant yn ei ddweud, a chyflwyno ac esbonio geiriau newydd.

3. Dylai *Cyfleoedd Dysgu Iaith* ystyried y canlynol:
   - Sut y caiff cyfleoedd eu cynllunio a'u creu i gefnogi cyfathrebu drwy gydol y dydd: Gall bron pob digwyddiad, cysylltiad neu weithgarwch yn ystod y dydd gefnogi sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu, felly dylai lleoliad ysgol sy'n ystyriol o gyfathrebu geisio sicrhau bod yr holl gyfleoedd hyn yn cael eu cynllunio a'u defnyddio. Ochr yn ochr â hyn, dylid cynllunio gweithgareddau sydd wedi'u hanelu'n benodol at gyfathrebu.
   **https://www.earlyyearscareers.com/eyc/enabling-environment/10-ways-create-communication-friendly-environment/**

   Mae amrywiaeth o adnoddau hunanwerthuso ar gael ar gyfer lleoliadau
   - **https://www.thecommunicationtrust.org.uk/media/267204/3_4_key_features_of_a_communication-friendly_classroom_final.pdf**
   - **https://www.thecommunicationtrust.org.uk/media/643573/communication_friendly_environments_checklist_june_2018.pdf**

**Anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu:**

***Anhwylder datblygu iaith***

Mae anhwylder datblygu iaith yn gyflwr gydol oes a nodweddir gan anawsterau i ddeall a/neu ddefnyddio iaith lafar. Nid oes unrhyw achos hysbys unigol ac mae'n debygol y caiff ei achosi

gan nifer o ffactorau risg biolegol, genetig ac amgylcheddol. Fe'i gelwid yn nam iaith penodol gynt. Anhwylder datblygu iaith, er nad yw'n union yr un peth, yw'r term cytûn bellach a bydd pobl sydd wedi cael diagnosis o nam iaith penodol yn gymwys i gael diagnosis o anhwylder datblygu iaith. Gellir rhoi diagnosis o anhwylder datblygu iaith os bydd anawsterau iaith plentyn yn debygol o barhau drwy gydol ei blentyndod ac yn ystod llencyndod ac oedolaeth.

**https://rcslt.org/-/media/Project/RCSLT/rcslt-dld-factsheet.pdf**

**https://www.rcslt.org/speech-and-language-therapy/clinical-information/developmental-language-disorder#section-2**

***Anghenion Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu Dros Dro a Pharhaus***: Gellir ystyried bod anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu yn dod o dan dri is-grŵp cyffredinol

1. Plant ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu sy'n gysylltiedig â phrofiadau cyfyngedig (Lindsay et al 2010). Mae'r anawsterau hyn yn rhai dros dro, h.y. o gael y gefnogaeth gywir, mae plant yn debygol o ddal i fyny. (Jordan a Thomas, 2010)

2. Plant sydd ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu sylfaenol lle mae anawsterau iaith yn digwydd er na nodwyd unrhyw achos niwroddatblygiadol na chymdeithasol, e.e. anawsterau iaith penodol neu anhwylder lleferydd penodol. Gellid disgrifio'r anawsterau hyn fel rhai penodol a pharhaus o ran natur.

3. Plant sydd â nam gwybyddol, synhwyraidd neu gorfforol fel eu prif angen ac anawsterau iaith fel angen eilaidd, e.e. Anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu sy'n eilaidd i anhwylder ar y sbectrwm awtistig, nam ar y clyw neu anhawster dysgu.

Gweler hefyd **file:///C:/Users/te083464/Downloads/2.1%20What%20is%20SLCN.pdf**

**Patrymau arferol datblygiad anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu**

Mae plant yn datblygu iaith ar gyfraddau gwahanol iawn.

### 1-2 oed:

Bydd y rhan fwyaf o blant bach yn:

- pwyntio er mwyn cyfeirio sylw rhywun arall (ynghyd â lleisio neu ymgais i ddweud geiriau)
- ceisio dweud rhai geiriau unigol y gall pobl gyfarwydd eu hadnabod (a bydd rhai yn dechrau cyfuno geiriau pan fyddant tua dwy oed)
- dangos pleser pan gânt adborth wrth enwi neu adnabod gwrthrych, person, neu lun yn llwyddiannus
- gallu dilyn cyfarwyddyd syml fel 'cer i nôl dy esgidiau', 'rho'r papur yn y bin'
- dechrau chwarae'n ddychmygus, er enghraifft esgus siarad ar ffôn tegan

### 2-3 oed:

Bydd y rhan fwyaf o blant 2-3 oed:

- yn rhoi ymadroddion byr at ei gilydd e.e. 'car dad' neu 'Ifan ysgol nawr'
- yn meddu ar eirfa sy'n ehangu ac efallai y byddant yn baglu dros eu geiriau wrth i'w hymadroddion ehangu
- yn anodd eu deall weithiau am fod eu system seiniau lleferydd yn dal i ddatblygu
- yn chwarae rôl am gyfnod mwy estynedig (rhoi dol neu dedi i'r gwely, golchi tedi)

O **http://www.maternal-and-early-years.org.uk/speech-and-language-development-what-to-expect-1-3-years-2**

Ceir rhagor o wybodaeth yn **https://www.thecommunicationtrust.org.uk/media/600981/ite_resource_1.pdf**

Ceir gwybodaeth ychwanegol ar y gwefannau canlynol:

**https://www.nidcd.nih.gov/health/speech-and-language**

**http://www.maternal-and-early-years.org.uk/topic/0-3-years/speech-language-and-communication-development**

**https://www.hacw.nhs.uk/our-services/speech-language-therapy/childrens/introduction-to-the-slcn-pathway/what-is-slcn/**

**Adnodd Hunanasesu'r Fframwaith Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu:**

Mae'r Fframwaith Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu yn adnodd am ddim a ddatblygwyd gan yr Ymddiriedolaeth Gyfathrebu. Mae'n galluogi ymarferwyr i gadarnhau eu lefel o gymhwysedd o ran cefnogi plant ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu. Ceir pedair lefel: Sylfaen, Cyffredinol, Uwch ac Arbenigol. Disgrifir y lefelau yma:

**https://www.slcframework.org.uk/the-slcf-levels/**

Byddai dysgwyr lefel 4 yn gweithio ar lefel 'Uwch' y fframwaith fel arfer, a byddai dysgwyr lefel 3 yn gweithio ar y lefel 'Gyffredinol' yn bennaf. Gall dysgwyr ddefnyddio'r adnodd i asesu eu cymhwysedd eu hunain drwy ymrestru fel defnyddiwr yma:

**https://portal.slcframework.org.uk/register/**

a graddio eu hyder mewn 10 maes. Mae'r adnodd yn eu galluogi i gynllunio eu hanghenion datblygiad proffesiynol parhaus eu hunain ac yn eu cyfeirio'n unol â hynny.

## Uned 419 Adnabod a Chefnogi Plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)

| | |
|---|---|
| **Lefel:** | 4 |
| **ODA:** | 145 |
| **Credyd:** | 30 |
| **Crynodeb o'r Uned:** | Nod yr uned hon yw galluogi dysgwyr i feithrin y wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i arwain y gwaith o adnabod plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol, fel y'u diffinnir mewn deddfwriaeth gyfredol, ar gam cynnar a'u cefnogi. Mae hyn yn cynnwys plant sy'n fwy abl a thalentog. |

### Deilliant dysgu:

1. Ymgorffori deddfwriaeth, canllawiau ac ymarfer cyfredol mewn perthynas ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)

### Meini prawf asesu

Rydych chi'n deall:

1.1 Yr ymchwil a'r dystiolaeth werthusol sy'n sail i ddeddfwriaeth, canllawiau ac ymarfer cyfredol

1.2 Sut mae deddfwriaeth a chanllawiau yn dylanwadu ar ddatblygiad gwasanaethau a ddarperir

1.3 Pwysigrwydd y Cod ADY presennol ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar a sut mae hwn yn effeithio ar ymarfer

1.4 Y polisïau, y gweithdrefnau a'r ymarfer gofynnol yn eich gweithle/lleoliad sy'n gysylltiedig â chefnogi plant ag ADY

Rydych chi'n gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

1.5 Cymhwyso'r hyn a ddysgwyd o ymchwil ac ymarfer seiliedig ar dystiolaeth yn eich gwaith eich hun

1.6 Cadw at

- bolisïau, gweithdrefnau ac ymarfer
- y Cod ADY ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar

yn y gweithle/lleoliad

### Deilliant dysgu:

2. Deall cyfrifoldebau'r gweithle/lleoliad i wneud addasiadau rhesymol ar gyfer plant ag ADY

## Meini prawf asesu

Rydych chi'n deall:

2.1 Y diffiniad cyfreithiol o addasiadau rhesymol ac ymateb graddedig
2.2 Senarios a all ofyn i addasiadau rhesymol gael eu gwneud ar gyfer plant ag ADY
2.3 Eich rolau a'ch cyfrifoldebau a rolau a chyfrifoldebau'r gweithle/lleoliad o ran gwneud addasiadau rhesymol ar gyfer plant ag ADY
2.4 Heriau a chyfleoedd a all godi wrth wneud addasiadau rhesymol ar gyfer plant ag ADY

---

## Deilliant dysgu:

3. Defnyddio dulliau adnabod i gefnogi ymyriadau cynnar gyda phlant

## Meini prawf asesu

Rydych chi'n deall:

3.1 Amrywiaeth a mynychdercy ADY a nodweddion diffiniedig fel y'u hamlinellir mewn deddfwriaeth gyfredol
3.2 Y sylfaen ymchwil a thystiolaeth sy'n cefnogi prosesau adnabod ADY yn gynnar ac ymyriadau
3.3 Effeithiau posibl ADY ar ddysgu, twf a datblygiad cyfannol plant
3.4 Pwysigrwydd adnabod ADY yn gynnar ac ymyriadau er mwyn cefnogi dysgu, twf a datblygiad cyfannol plant
3.5 Effeithiau labelu a stereoteipio ar blant ag ADY a sut i herio hyn yn y gweithle/lleoliad
3.6 Gwerth a phwysigrwydd ymarfer cynhwysol wrth weithio gyda phlant
3.7 **Rhwystrau** i gynwysoldeb wrth weithio gyda phlant a sut y gellid eu goresgyn
3.8 Pwysigrwydd mynd ati i herio rhagfarn, canfyddiadau ystrydebol a gwahaniaethu yn erbyn plant ag ADY
3.9 Dulliau arsylwi ac asesu priodol y gellir eu defnyddio i helpu i adnabod ADY yn gynnar
3.10 Proses atgyfeirio'r Cod ADY pan gaiff Anghenion Dysgu Ychwanegol eu hadnabod
3.11 Rolau a chyfrifoldebau'r Cydlynydd ADY
3.12 Eich rolau a'ch cyfrifoldebau eich hun, ynghyd ag atebolrwydd, terfynau a ffiniau fel y swyddog ADY arweiniol yn y gweithle/lleoliad
3.13 Pwysigrwydd cydweithio ag **eraill** i adnabod Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol briodol y gall fod ei hangen.
3.14 Y rhwydweithiau y gall plant a'u teuluoedd/gofalwyr eu defnyddio i gael cefnogaeth

Rydych chi'n gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

3.15 Myfyrio ar y ffordd y mae eich credoau, eich gwerthoedd a'ch sgiliau eich hun yn dylanwadu ar eich ymarfer a herio hynny
3.16 Cefnogi eraill i fyfyrio ar y ffordd y mae eu credoau, eu gwerthoedd a'u sgiliau eu hunain yn dylanwadu ar eu hymarfer a herio hynny
3.17 Ymgymryd ag ymarferion arsylwi ac asesu a'u defnyddio i gasglu tystiolaeth i gefnogi argymhellion ac atgyfeiriadau
3.18 Dilyn polisi a gweithdrefnau adnabod ac atgyfeirio'r gweithle/lleoliad
3.19 Cydweithio ag eraill i adnabod Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol y gall fod ei hangen

## **Amrediad**

**Rhwystrau:** rhai gwirioneddol a chanfyddedig, cymdeithasol ac amgylcheddol, damcaniaeth labelu (proffwydoliaeth hunangyflawnol), tybiaethau a stereoteipio, eich gwerthoedd a'ch credoau eich hun a gwerthoedd a chredoau pobl eraill

**Eraill:** plant, teuluoedd/gofalwyr, Swyddog Arweiniol ADY, gweithwyr iechyd proffesiynol, gweithwyr addysg proffesiynol, gweithwyr proffesiynol gwasanaethau cymdeithasol, cydweithwyr

---

Deilliant dysgu:

4. Cydweithio i roi cynlluniau plentyn-ganolog ar waith

Meini prawf asesu

Rydych chi'n deall:

4.1 Pwysigrwydd defnyddio arsylwadau ac asesiadau:
- i gefnogi atgyfeiriadau ac argymhellion
- i ddatblygu cynlluniau plentyn-ganolog

4.2 Sut i gydweithio i ddatblygu cynlluniau datblygu unigol a'u rhoi ar waith

4.3 Yr angen i fabwysiadu dulliau cynllunio plentyn-ganolog a phwysigrwydd gwerthfawrogi llais y plentyn

4.4 Yr angen i fonitro ac adolygu cynlluniau ar y cyd â phlant a'u teuluoedd/gofalwyr ac **eraill**

4.5 Yr angen i ddarpariaeth ddatblygu gydag anghenion y plentyn a'i deulu/gofalwyr

4.6 Pwysigrwydd cefnogi a grymuso teuluoedd/gofalwyr ac eraill fel eiriolwyr dros y plentyn

4.7 Sut y gall **ffactorau** effeithio ar blant a'u teuluoedd/gofalwyr a'r gefnogaeth y gallant ei chael

Rydych chi'n gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

4.8 Sicrhau mai plant a'u teuluoedd/gofalwyr sy'n ysgogi gwaith cynllunio plentyn-ganolog

4.9 Cydweithio ag eraill i ddatblygu cynlluniau plentyn-ganolog unigol a'u rhoi ar waith yn y gweithle/lleoliad

4.10 Adnabod a gwerthuso'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol y gall fod ei hangen i ddiwallu anghenion plant a'u teuluoedd/gofalwyr

4.11 Adnabod materion a chynlluniau ar gyfer gwelliant parhaus o ran gweithredu ymarfer cynhwysol a chyfranogiad

4.12 Monitro ac adolygu anghenion plant a'u teuluoedd/gofalwyr yn barhaus

**Amrediad**

**Eraill:** Cydweithwyr, gweithwyr proffesiynol eraill, gan gynnwys iechyd ac addysg

**Ffactorau:** Ethnigrwydd ac amgylcheddau cymdeithasol, diwylliannol a chrefyddol

---

Deilliant dysgu:

5. Cefnogi ymddygiad cadarnhaol wrth weithio gyda phlant

Meini prawf asesu

Rydych chi'n deall:

5.1 Beth yw ystyr 'cefnogaeth ymddygiad cadarnhaol' ac 'ymddygiad heriol'

5.2 **Modelau a fframweithiau sy'n cefnogi dulliau cadarnhaol**
5.3 Pam ei bod yn bwysig deall sbardunau ymddygiadol
5.4 Y gwahaniaeth rhwng yr ymddygiad a'r sbardun ymddygiadol
5.5 Yr amrywiaeth o **strategaethau atal sylfaenol ac ymyriadau cynnar** y gellir eu defnyddio i gefnogi ymddygiad cadarnhaol
5.6 Sut i **ddadansoddi ymddygiad a sbardunau ymddygiadol** er mwyn adnabod y strategaethau atal sylfaenol a'r ymyriadau cynnar mwyaf priodol i gefnogi ymddygiad cadarnhaol
5.7 Pwysigrwydd ystyried ymddygiad mewn cynlluniau plentyn-ganolog
5.8 Pwysigrwydd myfyrio ar eich ymatebion eich hun ac ymatebion pobl **eraill** i ymddygiad

Rydych chi'n gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:
5.9 Arwain ymarfer sy'n cydnabod ac yn cefnogi ymddygiad cadarnhaol plant
5.10 Arwain ymarfer sy'n mabwysiadu'r defnydd o strategaethau atal sylfaenol ac ymyriadau cynnar er mwyn cefnogi ymddygiad plant
5.11 Myfyrio ar eich ymatebion eich hun ac ymatebion pobl **eraill** i ymddygiad

### Amrediad

**Modelau a fframweithiau sy'n cefnogi dulliau cadarnhaol:** Cefnogaeth Weithredol, Ymarfer Adferol, Cefnogaeth Ymddygiad Cadarnhaol

**Strategaethau atal sylfaenol ac ymyriadau cynnar:** Ailfynegi, tawelu, ailgyfeirio, tynnu sylw, achub y blaen ac anwybyddu

**Dadansoddi ymddygiad a sbardunau ymddygiadol:** dulliau casglu data, rhoi'r model ymddygiadol ar waith, casglu a chyflwyno data sy'n hwyluso gwaith dadansoddi.

**Eraill:** Plant eraill, teuluoedd/gofalwyr, cydweithwyr

---

### Deilliant dysgu:

6. Defnyddio dulliau myfyrio i addasu ymarfer wrth weithio gyda phlant ag ADY

### Meini prawf asesu

Rydych chi'n deall:
6.1 Modelau o ymarfer myfyriol y gellir eu defnyddio i gefnogi eraill yn eich lleoliad
6.2 Pwrpas a phwysigrwydd myfyrio ar eich ymarfer eich hun ac ymarfer eraill wrth weithio gyda phlant
6.3 Yr angen i addasu eich ymarfer eich hun yn seiliedig ar fyfyrio a goblygiadau peidio â gwneud hynny
6.4 Effaith bosibl peidio â defnyddio ymarfer myfyriol ar ansawdd y gofal a'r gefnogaeth a roddir i blant

Rydych chi'n gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:
6.5 Defnyddio modelau myfyrio
6.6 Addasu eich ymarfer yn seiliedig ar fyfyrio a gwneud argymhellion i wella canlyniadau plentyn

# Uned 419 Adnabod a Chefnogi Plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)

## Gwybodaeth Ategol

### *Canllawiau cyflwyno*

Mae **anghenion dysgu ychwanegol** fel y'u diffinnir yn Neddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg 2018, sef:

- Mae gan berson anghenion dysgu ychwanegol os oes ganddo anhawster dysgu neu anabledd (pa un a yw'r anhawster dysgu neu'r anabledd yn deillio o gyflwr meddygol ai peidio) sy'n galw am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol.
- Mae gan blentyn sydd o'r oedran ysgol gorfodol neu berson sy'n hŷn na'r oedran hwnnw anhawster dysgu neu anabledd—
  - os yw'n cael anhawster sylweddol fwy i ddysgu na'r mwyafrif o'r rhai eraill sydd o'r un oedran, neu
  - os oes ganddo anabledd at ddibenion Deddf Cydraddoldeb 2010 (p. 15) sy'n ei atal neu'n ei lesteirio rhag defnyddio cyfleusterau addysg neu hyfforddiant o fath a ddarperir yn gyffredinol ar gyfer eraill sydd o'r un oedran mewn ysgolion prif ffrwd a gynhelir neu sefydliadau prif ffrwd yn y sector addysg bellach.
- Mae gan blentyn sydd o dan yr oedran ysgol gorfodol anhawster dysgu neu anabledd os yw'r plentyn yn debygol o fod o fewn is-adran (2) pan fydd o'r oedran ysgol gorfodol.
- Os yw'r iaith (neu'r ffurf ar iaith) y mae neu y bydd person yn cael ei addysgu ynddi yn wahanol i iaith (neu ffurf ar iaith) sy'n cael neu sydd wedi cael ei defnyddio gartref, nid yw hynny'n unig yn golygu bod gan y person anhawster dysgu neu anabledd.

**Y Cydgysylltydd Anghenion Dysgu Ychwanegol** yw'r unigolyn a benodir gan yr awdurdod lleol ac sy'n gyfrifol am blant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol

**Yr Arweinydd Anghenion Dysgu Ychwanegol** yw'r person sy'n gyfrifol am Anghenion Dysgu Ychwanegol yn eich gweithle/lleoliad.

Mae **Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol** yn cyfeirio at gefnogaeth ychwanegol a nodwyd ac y cytunwyd arni gan wasanaethau iechyd, addysg a gwasanaethau eraill i gefnogi datblygiad a dysgu cyfannol parhaus plant.

Sbardunau – yn yr ystyr bod y dull yn adlewyrchu'r hyn sy'n bwysig i'r plentyn a'r teulu nawr ac yn y dyfodol, a'u bod wedi cael cyfle i gyfrannu at y broses

Mae **Cynlluniau Plentyn-Ganolog** yn cyfeirio at y cynlluniau unedig a ddatblygwyd ar gyfer plant yn dilyn adolygiad person-ganolog. Byddant yn cynnwys cynllun gweithredu ac unrhyw ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a nodwyd.

**Cefnogaeth ymddygiad cadarnhaol -**

**Fframwaith cefnogaeth ymddygiad cadarnhaol:** dulliau moesegol sy'n seiliedig ar werthoedd, sail ddamcaniaeth a thystiolaeth, dadansoddi swyddogaethol, atal sylfaenol, atal eilaidd, strategaethau adweithiol.

**Model ymddygiadol:** Amodoldeb pedwar term: cymhelliant, rhagflaenyddion, ymddygiad a chanlyniadau – y berthynas rhwng unrhyw weithredoedd pennu neu gymell, ysgogiad, ymddygiad a chanlyniadau gwahaniaethol

**Pedair elfen gyffredin:** sylw cymdeithasol, osgoi/dianc, y gallu i gael gafael ar bethau diriaethol, ysgogi'r synhwyrau

## *Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol cysylltiedig*

- **SCDCCLD 0414:** Arwain gwaith i adolygu polisïau, gweithdrefnau ac arferion ar gyfer plant ag anghenion cymorth ychwanegol
- **SCDCCLD 0403:** Arwain rhaglenni i hybu datblygiad plant a phobl ifanc
- **SCDCCLD 0339:** Hybu gofal, dysgu a datblygiad plant ag anghenion cymorth ychwanegol mewn lleoliadau addysg gynnar
- **SCDCCLD 0321:** Hybu gofal, dysgu a datblygiad plant â gofynion ychwanegol mewn partneriaeth â'u teuluoedd
- **TDASTL44:** Gweithio gyda phlant a phobl ifanc â gofynion ychwanegol er mwyn diwallu eu hanghenion cefnogi personol
- **TDASTL38:** Cefnogi plant ag anableddau neu anghenion addysgol arbennig a'u teuluoedd
- **SCD HSC 0315:** Gweithio gyda phlant a phobl ifanc â gofynion ychwanegol er mwyn diwallu eu hanghenion cefnogi personol
- **SCD CCLD 0301:** Hybu cyfathrebu effeithiol
- **SCD CCLD 0308:** Hybu lles a gwydnwch plant

## *Deddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig*

- Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018
- **www.legislation.gov.uk/anaw/2018/2/contents**
- Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru
- **https://llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2018-12/cod-drafft-anghenion-dysgu-ychwanegol-cymru_0.pdf**
- Nodiadau esboniadol
- **https://llyw.cymru/deddf-anghenion-dysgu-ychwanegol-ar-tribiwnlys-addysg-cymru-nodiadau-esboniadol**
- Canllaw gweithredu ar gyfer cynlluniau datblygu unigol
- **https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-11/gweithredu-deddf-anghenion-dysgu-ychwanegol-ar-tribiwnlys-addysg-cymru-2018-ar-gyfer-cynlluniau-datblygu-unigol.pdf**
- Cefnogi disgyblion mwy abl a dawnus mewn ysgolion cynradd, Estyn, 2011 **https://www.estyn.llyw.cymru/sites/default/files/documents/Cefnogi%20disgyblion%20mwy%20abl%20a%20dawnus%20mewn%20ysgolion%20cynradd%20-%20Gorffennaf%202011.pdf**
- Arolwg i ganfod y ddarpariaeth ar gyfer y dysgwyr mwy galluog a thalentog drwy Gymru, 2015
- **https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-02/arolwg-i-ganfod-y-ddarpariaeth-ar-gyfer-y-dysgwyr-mwy-galluog-a-thalentog-drwy-gymru.pdf**
- SNAP CYMRU **http://www.snapcymru.org/?lang=cy**
- Anabledd Dysgu Cymru **https://www.ldw.org.uk/cy/**

- Cyswllt Teulu Cymru https://contact.org.uk/wales
- Canllawiau Dechrau'n Deg
- **http://gov.wales/topics/people-andcommunities/people/children-and-young-people/parenting-supportguidance/help/flyingstart/?lang=cy**
- Chwarae a Risg (2013)
- https://issuu.com/playwales/docs/chwarae_a_risg  Amddifadedd chwarae (2003) **https://www.chwaraecymru.org.uk/login/uploaded/documents/INFORMATION%20SHEETS/amddifadiad%20chwarae.pdf**
- Chwarae: iechyd a lles (2012) https://www.chwaraecymru.org.uk/login/uploaded/documents/INFORMATION%20SHEETS/chwarae%20iechyd%20a%20lles.pdf
- Chwarae: darpariaeth gynhwysol (2013) **https://issuu.com/playwales/docs/play_inclusive_provision?e=5305098/5307437**
- Cynyddu gwytnwch – pwysigrwydd chwarae (2015) http://www.chwaraecymru.org.uk/login/uploaded/documents/INFORMATION%20SHEETS/Cynyddu%20gwytnwch.pdf
- Hybu gweithgarwch corfforol trwy chwarae'r tu allan mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar (2016) https://issuu.com/playwales/docs/hybu_gweithgarwch_corfforol__trwy_c
- **Arfer myfyriol – beth ydi o a pham ei fod mor bwysig? (2018)** https://www.playwales.org.uk/login/uploaded/documents/INFORMATION%20SHEETS/Arfer%20myfyriol.pdf**RLN)**
- https://www.asdinfowales.co.uk/home.
- https://www.ndcs.org.uk/resources-eyp

# Atodiad 1 Cysylltiadau â chymwysterau eraill

## Cysylltiadau â chymwysterau eraill

Mae cysylltiadau rhwng y cymhwyster hwn a'r cymwysterau canlynol:

- Lefel 1/2 Cyflwyniad i Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant
- Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Craidd
- Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer
- Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer
- Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Egwyddorion a Chyd-destunau
- Lefel 4 Paratoi i Arwain a Rheoli Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant
- Lefel 5 Arwain a Rheoli Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer